Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Canllawiau Arfer Da i ddarparu gwasanaethau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n defnyddio neu'n camddefnyddio sylweddau yng Nghymru

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2008
CMK-22-04-045 (082)
D1430809

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Diben y ddogfen** | 3 |
| **Adran A - enghreifftiau o arfer da** | |
| 1 Trosolwg | 5 |
| 1.1 Pwynt arfer da 1 - cyflwyno addysg gyffredinol effeithiol | 5 |
| 1.2 Pwynt arfer da 2 - rhagnodi | 6 |
| 1.3 Pwynt arfer da 3 - cyfnewid nodwyddau | 7 |
| 1.4 Pwynt arfer da 4 - cynnal asesiadau | 8 |
| 1.5 Pwynt arfer da 5 - cynlluniau pontio | 9 |
| **Adran B - cyd-destun** | |
| 2 Trosolwg | 11 |
| 2.1 Deddf Plant 2004 | 13 |
| 2.2 Diogelu plant (adran 28) | 13 |
| 2.3 Cynllunio | 14 |
| 2.4 Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru | 14 |
| 2.5 Gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed | 14 |
| 2.6 Deddf Galluedd Meddyliol | 15 |
| 2.7 Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth | 15 |
| 2.8 Plant mewn angen a'u teuluoedd | 15 |
| 2.9 Cyfeirio a rhannu gwybodaeth | 16 |
| 2.10 Fframwaith Asesu | 17 |
| 2.11 Plant sy'n Derbyn Gofal | 18 |
| 2.12 Hunanladdiad, ymgais at hunanladdiad a chamddefnyddio sylweddau | 18 |
| 2.13 Elfennau allweddol | 19 |
| 3 Cwmpas y ddogfen | 20 |
| 3.1 Y grŵp cleientiaid | 20 |
| 3.2 Sylweddau a gynhwysir yn y fframwaith | 20 |
| 4 Patrymau defnyddio a chamddefnyddio sylweddau | 21 |
| 4.1 Llwybrau | 21 |
| 4.2 Grwpiau sydd mewn perygl | 21 |
| 5 Y Fframwaith strategol pedair haen | 23 |
| **Adran C - rhaglenni ac ymyriadau** | |
| 6 Gwasanaethau addysg gyffredinol | 25 |
| 6.1 Cyd-destun | 25 |
| 6.2 Mynediad ac amcanion | 25 |
| 6.3 Nodweddion y cynnwys | 25 |
| 6.4 Darpariaeth ac arddull | 26 |
| 6.5 Asiantaethau, personél a lleoliadau | 26 |

7 Rhaglenni dewisol neu raglenni wedi'u targedu 28
7.1 Diffiniad 28
7.2 Gwasanaethau sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor manylach am gyffuriau a gwasanaethau 28
7.3 Gwasanaethau atal 28

8 Rhaglenni dynodedig (gan gynnwys triniaeth) 30
8.1 Asesiad 30
8.1.1 Diffiniad 30
8.2 Diffiniad 30
8.3 Ymyriadau arbenigol 31
8.3.1 Gwasanaethau cyn-triniaeth 31
8.3.2 Gwasanaethau ymyriad a thriniaethau arbenigol yn y gymuned 32
8.3.3 Gwasanaethau i gleifion mewnol 32
8.3.4 Gwasanaethau preswyl 33
8.4 Trefnu gwasanaethau ymyriad arbenigol cynhwysfawr 34
8.5 Materion Allweddol ar gyfer Darparu Gwasanaeth 35
8.5.1 Asiantaeth Arweiniol a Phrif Weithiwr Arweiniol 35
8.5.2 Gwasanaethau Integredig 35
8.5.3 Swyddogaeth gyswllt camddefnyddio sylweddau (gweithwyr cyswllt) 36
8.5.4 Cynnwys rhieni a gofalwyr 36
8.5.5 Ymdrin â chyfnodau pontio 37
8.5.6 Rhith dimau a thimau ymarferol 38
8.5.7 Amddiffyn Plant 38

**Adran D - comisiynu a chynllunio**

9 Diben yr adran 39

10 Cefndir 40

11 Y model cynllunio a awgrymir 41
11.1 Cynllunio Haen 1 42
11.2 Cynlunio Haenau 2 a 3 42
11.3 Cynllunio Haen 4 42

12 Arferion da wrth gynllunio 43
12.1 Strategaeth 43
12.2 Datblygu'r sylfaen wybodaeth 43
12.3 Ymateb i'r boblogaeth leol 44
12.4 Partneriaethau â darparwyr gwasanaethau 45
12.5 Cydweithredu effeithiol 45
12.6 Effeithlonrwydd drwy gontractau neu gytundebau lefel gwasanaeth 46
12.7 Addasrwydd y sefydliad/hunanasesiad Cynllunydd 46
12.8 Rheoli perfformiad 47
12.9 Cylch gwella gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n defnyddio neu'n camddefnyddio sylweddau 47
12.10 Safonau a phennu safonau 48

# Diben y ddogfen

Mae camddefnyddio sylweddau gan blant a phobl ifanc yn her sylweddol i iechyd y cyhoedd. Mae gan y DU rai o'r cyfraddau uchaf yn Ewrop o ran y bobl ifanc rhwng 15-16 oed sy'n defnyddio neu'n camddefnyddio sylweddau. Ar hyn o bryd mae cynnydd yn y niferoedd sy'n defnyddio alcohol (merched ifanc yn arbennig) ac mae goryfed mewn pyliau wedi cynyddu'n drawiadol.

Bwriad y ddogfen hon yw cynorthwyo cynllunwyr a darparwyr gwasanaethau i sefydlu gwasanaethau effeithiol i bobl ifanc mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau. Er mai cyfyngedig yw'r dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd ymyriadau yn y maes yma mae'n ymddangos bod yno themâu arfer da sy'n gallu cael effaith cadarnhaol. Mae'r canllawiau hyn yn ymdrin ac yn amlygu'r rhain ac yn cyflwyno fframwaith i sefydliadau ac asiantaethau sydd â chyfrifoldeb a diddordeb yn y maes.

Mae pedair rhan i'r ddogfen:

Adran A - Crynodeb o Arfer Da

Adran B - Cyd-destun

Adran C - Rhaglenni ac ymyriadau

Adran D - Cynllunio

Dylid darllen y ddogfen yng nghyd-destun fframweithiau arfer da blaenorol ar gyfer camddefnyddio sylweddau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn enwedig ar gyfer cyfnewid nodwyddau, gofal cleifion mewnol ac adsefydlu preswyl.

Yn yr un modd, mae angen ystyried y fframwaith yng nghyd-destun strategaethau a deddfwriaeth berthnasol sydd wedi'u hanelu at iechyd a lles plant yng Nghymru, ac fe amlygir rhai ohonynt isod. Mae hyn yn cynnwys Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

Cynhyrchwyd y Fframwaith gan is-grŵp o Fwrdd Prosiect Camddefnyddio Sylweddau y Cynulliad ac mae'n seiliedig ar waith a gomisiynwyd gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru yn 2006.

# Adran A - Crynodeb o arfer da

## 1 Trosolwg

Mae Adran A yn amlygu enghreifftiau penodol o arfer da ar gyfer darparwyr yn y pum maes canlynol:

- Cyflwyno addysg gyffredinol
- Rhagnodi
- Cyfnewid Nodwyddau
- Cynnal Asesiadau
- Cynlluniau Pontio.

Dyma'r meysydd allweddol i ddarparwyr gwasanaeth ac mae'r wybodaeth isod yn crynhoi beth sy'n cael ei ystyried yn arfer da ar hyn o bryd.

### 1.1 Pwynt arfer da 1 - Cyflwyno addysg gyffredinol effeithiol

Mae darparu addysg gyffredinol o ansawdd uchel yn un o ofynion allweddol unrhyw ddull systematig i ddarparu strategaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau.

Mae cyflenwi rhaglenni addysg gyffredinol effeithiol yn gofyn am y canlynol:

- gweithredu dull safonol y cytunir yn genedlaethol arno, sy'n cadw hyblygrwydd i ymateb i gyflyrau lleol amrywiol ac i batrymau cyfnewidiol o ddefnyddio a chamddefnyddio;
- datblygu rhaglenni tymor hir, dwys sy'n cynnig integreiddio rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd;
- mae rhaglenni'n briodol o ran eu datblygiad, yn addas o ran dilyniant a chyd-destun;
- mae'r dysgu yn digwydd o fewn model safonol o Addysg Bersonol a Chymdeithasol, yn hytrach na sefyllfa lle bydd ABCh yn cael ei chyflwyno mewn amrywiol ffyrdd ac yn aml yn defnyddio staff anarbenigol;
- rhaglenni'n defnyddio dull ysgol gyfan sy'n ymgorffori negeseuon am addysg ysmygu, alcohol a chyffuriau;
- cyflwynir hybu iechyd yng nghyd-destun bodolaeth polisïau gweithredol yn yr ysgol ar sylweddau;
- mae cyflwyniad lleol wedi ei gysylltu â strategaethau megis y rhaglen ysgolion iach cenedlaethol;
- gwybodaeth am wasanaethau y gallant droi atynt am fwy o fanylion a chyngor a lle gallant drafod unrhyw bryderon allai fod ganddynt.

## 1.2 Pwynt arfer da 2 - Rhagnodi

Byddem yn cynghori clinigwyr i gyfeirio at yr adrannau perthnasol ar reolaeth glinigol yng nghanllawiau'r DU ar Gamddefnyddio a Dibyniaeth ar Gyffuriau 2007 ar gyfer pwyntiau arfer penodol.

Mae ffarmacotherapi ar gael i drin amrywiaeth o broblemau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau gan gynnwys:

- achosion brys (e.e. wedi gorddos, ffitiau, dadhydradu, hypothermia);
- symptomau dadwenwyno ac ymatal (e.e. buprenorphine, bensodiasepinau, chlormethiazole, lofexidine, methadon);
- cyfnewid (e.e. cyfnewid am buprenorphine, bupropion, methadon, cyfnewid nicotin);
- atal llithro nôl (e.e. acamprosate, naltrexone, pseudoephedrine;
- anhwylderau seiciatrig cyd-forbid (e.e. poen meddwl, iselder, ADHD);
- anhwylderau corfforol cyd-forbid (e.e. HIV, Hepatitis C, diabetes); a
- cyfnewid fitaminau.

Mae triniaethau ffarmacolegol wedi eu neilltuo fel arfer ar gyfer cleifion sy'n ddibynnol. Maent ar gael er mwyn trin symptomau encilio, er mwyn cynnal ymatal, er mwyn rhwystro cymhlethdodau, ac er mwyn trin anhwylderau seicolegol a chorfforol. Dim ond buprenorphine sydd wedi ei drwyddedu ar gyfer ei ddefnyddio gan rai o dan 18 oed, ond gellir rhagnodi therapi cyflenwi nicotin ar gyfer rhai o dan 18 oed os yw ymarferydd meddygol yn dweud fod hynny'n briodol. Mae gan hyn oblygiadau pwysig iawn i ymarferwyr sy'n trin y glasoed sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau oherwydd mae'r rhan fwyaf o'u cleifion sydd angen gwasanaeth rhagnodi angen hynny oherwydd eu bod yn gaeth ac mae hyn yn galw am ymyriad arbenigol.

Mae consenswys cyffredinol y dylai trin y glasoed drwy ragnodi gael ei roi ar droed gan wasanaeth arbenigol a dylai eu triniaeth gael ei goruchwylio a'i monitro fel arfer gan y gwasanaeth hwnnw. Er ei bod yn hanfodol bod triniaeth ffarmacolegol yn cael ei gweinyddu'n ddiogel, mae yr un mor bwysig ei gweld fel un rhan o driniaeth fesul cam a phroses a reolir.

Mae rhai gwasanaethau arbenigol yn rhagnodi er mwyn sefydlogi, gostwng a dadwenwyno gan geisio osgoi triniaethau cynnal a chadw. Gall titradiad a dadwenwyno gael eu darparu hefyd ar gyfer rhai dros 16 oed gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau sydd wedi eu bwriadu'n bennaf ar gyfer oedolion. Dylai gwelyau fod ar gael yn rhwydd ar gyfer yr achosion mwyaf cymhleth; os na fyddant, gallai argyfyngau ddatblygu.

Mae ffarmacotherapi ar gyfer rhai iau nag 16 oed yn gofyn am gryn sgil ac mae'n rhaid i'r ymarferwyr sy'n ei ragnodi fod wedi eu hyfforddi'n dda mewn seiciatreg caethiwed. Dylai cynllunwyr a darparwyr gwasanaeth gydnabod hefyd bod y rhain yn grwpiau risg uchel o bobl ifanc sydd angen eu monitro'n ofalus iawn.

### Defnyddio sylweddau dan oruchwyliaeth

Mae'n hanfodol goruchwylio defnydd sylweddau a ragnodir i bobl ifanc. Dylai fferyllwyr roi gwybod i'r gwasanaeth arbenigol sy'n ymwneud â hwy os nad yw person ifanc yn dod i gasglu ei foddion hyd yn oed unwaith. Dylai protocol fodoli ar gyfer y clinig os nad yw cleientiaid yn casglu eu sgriptiau'n ddyddiol (h.y. am sawl diwrnod allan nhw 'fynd hebddo') cyn y rhoddir terfyn ar y sgript. Mae Canllawiau'r DU ar Gamddefnyddio a Dibyniaeth ar Gyffuriau yn awgrymu dim mwy na 3 diwrnod ond efallai bod goddefiad plant a phobl ifanc yn llai, felly dylai gwasanaethau gadw hynny mewn cof a gwneud penderfyniadau clinigol priodol.

## 1.3 Pwynt arfer da 3 - Cyfnewid Nodwyddau

Wrth weithio o fewn fframwaith lleihau niwed, gall mynediad rhwydd at nodwyddau a chwistrellau gael ei ystyried fel arfer da mewn gwasanaethau ar gyfer oedolion. Nid yw'r un peth yn wir o angenrheidrwydd ar gyfer pobl ifanc oherwydd y gofynion statudol a chyfreithiol gwahanol ar blentyn dan oed. Felly mae:

- *Asesiad llawn a chaniatâd sy'n seiliedig ar wybodaeth* yn hanfodol, ac wrth drafod pobl ifanc iau nag 16 oed, dylid darparu cyfnewid nodwyddau ddim ond yng nghyd destun cynllun gofal a thriniaeth a gaiff ei adolygu'n rheolaidd.
- Chwistrellu sylweddau anghyfreithlon yn beryglus a dylid gwneud pob ymdrech i newid y drefn o'u gweinyddu i un fwy diogel, cysylltu â gwasanaethau mor effeithiol â phosibl a lleihau neu roi'r gorau i gymryd cyffuriau.
- Ni ddylid colli golwg ar egwyddorion lleihau niwed wrth ymdrin â defnyddwyr cyffuriau iau. Fodd bynnag, dylid ystyried ffactorau niweidiol ychwanegol a'u statws cyfreithiol gwahanol yn ofalus hefyd.

Mae'r rhan fwyaf o bobl iau sy'n defnyddio cyffuriau 'caletach' dros 16 oed. Fodd bynnag, mae'n ofynnol darparu lleiafswm o wasanaethau cyfnewid nodwyddau neu chwistrellau ar gyfer rhai o dan 16 oed. Mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid i wasanaethau sicrhau bod staff yn gymwys i ddelio â'r materion canlynol:

- sylweddoli fod lles y plentyn yn holl bwysig ym mhob gweithgarwch;
- cael caniatâd dilys ar gyfer yr ymyriad;
- cynnwys rhieni a gofalwyr;
- sicrhau bod y cyflenwad nodwyddau neu chwistrellau yn rhan o gynllun gofal ehangach;
- asesu ymwybyddiaeth pob person ifanc o beryglon chwistrellu a'u gallu i ddeall y peryglon hyn;
- sicrhau bod pob person ifanc, teulu a gofalwr yn ymwybodol o'r ffiniau a osodir gan gyfrinachedd a dyletswydd y gwasanaeth mewn perthynas ag amddiffyn plant; a
- defnyddio gweithdrefnau amddiffyn plant er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc wedi eu diogelu pan fo angen.

Yn ychwanegol, dylai gwasanaethau sicrhau bod protocolau cyfnewid nodwyddau wedi eu derbyn gan y pwyllgor ardal amddiffyn plant a byrddau gwarchod plant lleol, pan sefydlir hwy.

Ystyriaethau arbennig:

- dylid cyflwyno cyfnewid nodwyddau ar gyfer pobl ifanc fel rhan o becyn triniaeth a gynlluniwyd;
- nid yw darpariaeth annibynnol, anhysbys yn arfer da oherwydd statws cyfreithiol pobl ifanc;
- dylai gwasanaethau sicrhau eu bod yn gweithio o fewn ffaith ac ysbryd Deddf Plant 1989; mae hyn yn cynnwys hyrwyddo amddiffyn plant, meithrin agwedd gyfannol tuag at weithio gyda phlant a phobl ifanc, a chynnwys rhieni/gofalwyr, os yn bosibl;
- dylai'r asesu ar gyfer cyfnewid nodwyddau fod yn gynhwysfawr ac yn gyfannol gyda lles pob person ifanc yn flaenllaw; dylid hefyd ystyried anghenion datblygiad plant, ymwneud y rhieni a ffactorau amgylcheddol eraill;
- dylid darparu pob cyfnewid nodwyddau o fewn dull o leihau niwed (h.y. cynghori ar ffyrdd eraill o ddefnyddio cyffuriau, annog lleihad yn amlder defnyddio cyffuriau, darparu gwybodaeth ynglŷn â diogelwch personol [er enghraifft peidio â chwistrellu ar eich pen eich hun, anaddasrwydd rhai sylweddau ar gyfer eu chwistrellu]; ac
- mae'n rhaid i'r aelod o staff arddangos fod gan bob person ifanc ddigon o wybodaeth a dealltwriaeth i chwistrellu cyffuriau mor ddiogel â phosibl a dylid sefydlu hefyd bod darparu offer chwistrellu glân yn lleihau'r peryglon posibl i'r person ifanc.

## 1.4 Pwynt arfer da 4 - Cynnal Asesiadau

Mae asesiadau yn hanfodol ym mhob sefyllfa o gamddefnyddio sylweddau ond mae gan y broses bwysigrwydd penodol yng nghyd-destun pobl ifanc. Mae arfer da yn awgrymu:

- Dylid hysbysu pob person iau, y gallent weld person gwahanol i'r un sydd wedi ei ddynodi ar eu cyfer gan y gwasanaeth (e.e. gall rhai cleientiaid benywaidd ddewis gweld aelod benywaidd o staff), os dymunant.
- Gan fod gwybodaeth o natur sensitif yn cael ei datgelu yn aml yn ystod asesiad, dylid ei gynnal mewn ystafell breifat.
- Mae'n arfer da darllen ac egluro gosodiad ynglŷn â chyfrinachedd, dylid egluro unrhyw bwyntiau nas deallwyd a dylid cynorthwyo pob person iau i holi cwestiynau. Ni ddylai staff gymryd yn ganiataol bod person iau yn llythrennog.
- Yn arferol, dylai asesiadau roi cyfle i bob person ifanc siarad yn agored a heb unrhyw bwysau ychwanegol. Os yw person iau yn dod am asesiad gyda ffrind neu berthynas, dylid ystyried yn ofalus pa mor ddefnyddiol yw caniatáu i'r person arall fod yn bresennol.

- Pryd bynnag y bo modd ac er mwyn hybu cydlynedd y gwasanaeth, dylai pob asesiad gan y gwasanaethau mwy arbenigol ar gyfer pobl iau gael ei gwblhau gan y gweithiwr sy'n debygol o ddod yn rheolwr achos neu'n weithiwr proffesiynol arweiniol ar gyfer y person ifanc hwnnw.
- Os yw'n ymddangos bod person iau o dan ddylanwad neu yn ymddwyn yn rhy ddryslyd i barhau, dylid gofyn iddo fynychu ar ddyddiad arall. Os yw'r person ifanc fel pe bai am fynd yn anymwybodol, neu bod arwyddion eraill o orddos (gan gynnwys y rhai a ddaw o hunanddatgelu), dylid rhoi'r gorau i'r asesiad ar unwaith a galw am ambiwlans.
- Os bydd gan aelod o staff, ar unrhyw adeg, bryder difrifol ynglŷn â diogelwch person iau neu berson arall, o'r wybodaeth a ddatgelir, dylent rannu eu pryderon gyda'r person iau a nodi'n glir beth yw ei resymau dros bryderu. Gall fod angen ceisio arweiniad gan gydweithiwr neu reolwr. Os bydd sefyllfa fel hon yn codi dylid gwneud i'r person ifanc deimlo mor gartrefol â phosibl a pheidio â gwneud iddo deimlo'n bryderus heb fod angen.

Dylai pob aelod o staff sydd â phryderon neu a ddaw yn ymwybodol o bryderon ynglŷn â lles neu ddiogelwch plentyn neu blant wybod:

- sut a pha bryd i gyfeirio at wasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol;
- pa wasanaethau sydd ar gael yn lleol;
- sut i gael mynediad atynt;
- pa ffynonellau cyngor ac arbenigedd pellach sydd ar gael; a
- chyda phwy y dylid cysylltu o dan pa amgylchiadau, a sut.

*(DS Yn ystod cyfnod cynnar, dylai staff camddefnyddio sylweddau benderfynu a oes angen iddynt gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylai staff fod wedi derbyn hyfforddiant er mwyn eu cynorthwyo i adnabod dangosyddion bod plentyn 'mewn angen' neu lle mae yna bryderon amddiffyn plant a sut i'w cyfeirio'n briodol.)*

## 1.5 Pwynt arfer da 5 - Cynlluniau Pontio

Mae'r elfen ymyriad o linyn pobl ifanc y fframwaith hwn yn seiliedig ar y gobaith y bydd ymyriad buan yn lleihau'r angen i bobl ifanc ddefnyddio gwasanaethau pan fyddant yn oedolion. Mae arfer da mewn perthynas â chynlluniau pontio yn awgrymu:

- dylai pob unigolyn ifanc sy'n derbyn gofal asesiad, a/neu ymyriadau ar gyfer camddefnyddio sylweddau posibl neu wirioneddol, fod â chynllun gofal pontio wedi'i lunio cyn ei ben-blwydd yn ddeunaw oed. Dylai hwn nodi unrhyw anghenion sy'n parhau a'r sefydliadau sydd yn y sefyllfa orau i ddiwallu'r anghenion hynny;
- er mwyn cynllunio trefniadau pontio, dylai darparwyr gwasanaethau i oedolion ac i bobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau weithio gyda'i gilydd;

- gallai gweithwyr pontio fod wedi'u lleoli mewn gwasanaethau i oedolion, ond gan gynnal rhai sesiynau mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer pobl ifanc hefyd;
- dylid enwi cydgysylltydd gofal, a elwir gennym yn weithiwr proffesiynol arweiniol, yn y cynllun gofal. Bydd yn dod o'r asiantaeth sy'n arwain ac yn sicrhau bod cysylltiadau cadarn â'r holl weithwyr proffesiynol priodol eraill. Mewn sawl achos, efallai y bydd pobl ifanc 18 oed sydd angen gwasanaethau i ddelio â chamddefnyddio sylweddau hefyd angen ymyriadau gan wasanaethau prif ffrwd eraill, megis tai, addysg a gofal sylfaenol; a
- gall pobl ifanc bontio i wasanaethau ar gyfer oedolion ar wahanol oedrannau neu gyfnodau datblygiadol yn dibynnu ar yr asiantaethau dan sylw a'r disgwyliadau arnynt (ee gall Timau Troseddau Ieuenctid, CAMHS Arbenigol a gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fod â threfniadau gwahanol). Dylai trefniadau pontio sicrhau bod y gwahanol drefniadau hyn yn cael eu cynnwys yng nghynllun gofal y cleient, os yw hynny'n berthnasol.

# Adran B - Cyd-destun

## 2 Trosolwg

Mae camddefnyddio sylweddau gan blant a phobl ifanc yn her sylweddol i iechyd y cyhoedd. Mae gan y DU rai o'r cyfraddau uchaf yn Ewrop o bobl ifanc rhwng 15-16 oed sy'n defnyddio neu'n camddefnyddio sylweddau. Ar hyn o bryd mae cynnydd yn y defnydd o alcohol (yn arbennig ymhlith merched ifanc) a chynyddodd goryfed mewn pyliau yn drawiadol.

Yr unig ffordd y gellir gwella canlyniadau ar gyfer plant mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau a chynnal hynny yw cael pobl a chyrff allweddol i gydweithio i gynllunio a darparu gwasanaethau mwy integredig ar sail anghenion plant a phobl ifanc.

Mae darparu'r ystod addysg a'r gwasanaethau atal a thriniaeth i blant a phobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau yn elfen allweddol o ddiogelu a hybu iechyd a lles plant. Ni ddylid ystyried diogelu plant fel gweithgaredd ar wahân i hybu eu lles a dylid gosod hyn yng nghyd-destun gwasanaethau ehangach ar gyfer plant mewn angen. Oherwydd hynny mae'n hanfodol fod gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'n dal ati i gydweithio'n barhaus ac yn dda â'r gwasanaethau cymdeithasol er mwyn hyrwyddo pennaf les y plant.

Mae Deddf Plant, 2004 yn darparu'r cyd-destun cyfreithiol ar gyfer y fframwaith hwn sy'n sefydlu Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc statudol; mae gofyn i'r rhain gyhoeddi Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPI), sy'n amlinellu'r modd y byddant yn cydweithio i wella lles plant a phobl ifanc. Dyma'r prif ddatganiad o fwriad cynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc y mae'n rhaid i bob cynllun arall, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i blant a phobl ifanc, eu hystyried. Mae'r CPPI hefyd yn sail ar gyfer cynllunio gwasanaethau ar y cyd.

Mae canllawiau Statudol Diogelu Plant Cydweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2006 yn datgan fel a ganlyn: Y dylai pawb sy'n dod i gysylltiad â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys pawb sy'n gweithio neu sy'n dod i gysylltiad â phlant, rhieni ac oedolion eraill sydd mewn cysylltiad â phlant neu sy'n ceisio cysylltu â nhw, allu adnabod, a gwybod sut i weithredu ar dystiolaeth fod iechyd neu ddatblygiad plentyn yn cael ei lesteirio, neu y gallai gael ei lesteirio, ac yn arbennig pan fônt yn dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol. Dylai ymarferwyr, gofalwyr maeth a rheolwyr fod yn ystyriol bob amser o les a diogelwch plant - gan gynnwys plant nad ydynt wedi eu geni a phlant hŷn - yn eu gwaith.

Dylai gwasanaethau Addysg Gyffredinol sy'n rhoi gwybodaeth i bobl iau ac yn eu helpu i ddelio â phwysau i ddefnyddio sylweddau fod ar gael i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru a dylid cydgysylltu'r broses o'u comisiynu a'u darparu yn lleol ar lefel Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) (gan ddilyn arfer da a nodwyd) a'i gynnwys yn y CPPI. Gweler Pennod 5, *Diogelu Plant: Cydweithio Gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004*.

Dylid cyfannu addysg gyffredinol â rhaglenni dewisol neu rai wedi'u targedu gyda grwpiau penodol o blant, pobl ifanc neu oedolion ifanc mewn perygl. Dylai'r rhain ganolbwyntio ar roi sylw i ffactorau risg a chynyddu gwydnwch a dylent gael eu cydgysylltu yn lleol ar lefel PDC.

Dylai hyfforddiant fod ar gael i bob gweithiwr proffesiynol perthnasol ac mae angen hyfforddiant uwch am sylweddau a chamddefnyddio sylweddau ar gyfer staff dynodedig sydd â chyfrifoldeb am addysgu pobl ifanc sy'n mynychu eu sefydliadau/mudiadau ynghylch camddefnyddio sylweddau.

Mae angen i asiantaethau arbenigol ddarparu rhaglenni unigol a rhaglenni cynlluniedig o asesu, ymyriad a gofal ar gyfer rhai plant neu bobl ifanc arbennig a nodwyd sy'n camddefnyddio sylweddau. Dylai'r rhaglenni hyn gynnwys amrywiaeth eang o ymyriadau neu 'driniaethau' ar gyfer pobl iau (a'u teuluoedd) gan gynnwys therapïau seicolegol, triniaethau ffarmacolegol a chyfnewid nodwyddau.

Dylid darparu gwasanaethau ymyriad arbenigol cynhwysfawr mor eang â hyn drwy greu asiantaethau unigol neu drwy ddwyn ynghyd asiantaethau ar wahân i weithredu fel endid unigol neu drwy greu rhwydwaith o asiantaethau llacach eu cysylltiad.

Mae nifer llawer llai o bobl ifanc yn debygol o fod angen gwasanaethau i gleifion mewnol neu gyfleusterau preswyl fel cymunedau therapiwtig ar gyfer adferiad seicogymdeithasol, hosteli hanner ffordd, cartrefi i grwpiau, a gofal maeth arbenigol. Mae angen i'r rhain ddiffinio ffactorau canlyniadau llwyddiannus yn eglur.

Asesu yw'r brif broses sy'n rhoi cychwyn ar ymyriad, ac y mae'r modd y mae'n cael ei drin yn aml yn bwysig o ran penderfynu a yw plant iau a'u teuluoedd yn parhau i ddefnyddio'r gwasanaethau y maen nhw'n cael eu cynnig.

Lle bo mwy nag un asiantaeth unigol yn rhan o'r broses, dylent gytuno rhyngddynt pa un yw'r asiantaeth arweiniol ym mhob achos gan fod hyn yn gwneud y mater yn fwy eglur i gleientiaid a'u teuluoedd. Dylai PDCau hefyd ystyried gwella'r cyswllt rhyngasiantaethol rhwng y gwasanaethau arbenigol a'r rhai cyffredinol drwy greu gwasanaeth cyswllt camddefnyddio sylweddau neu wasanaeth gweithiwr cyswllt.

Nid yn unig y mae cynnwys rhieni a gofalwyr mewn gwasanaethau i ddefnyddwyr sylweddau iau yn hanfodol o ran arfer da, ond gall hefyd wella canlyniadau'r driniaeth y gall y gwasanaeth eu cyflawni. Un eithriad i hyn yw pan fo rhywun yn credu y gall plentyn fod yn dioddef, neu ei fod mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, lle gallai trafodaeth o'r fath a cheisio dod i gytundeb drwy gyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol osod plentyn mewn mwy o berygl o niwed.

Dylai prosesau cynllunio PDC sicrhau bod yr arferion da a nodwyd yn y fframwaith hwn ar gyfer rhaglenni addysg cyffredinol, rhagnodi, cyfnewid nodwyddau, asesu a thrin cyfnodau pontio, yn cael eu sefydlu. Mae'r CPPI lleol yn sail ar gyfer cynllunio darpariaeth gwasanaeth gan bartneriaid statudol a darparwyr gwirfoddol ar y cyd.

## 2.1 Deddf Plant 2004

Mae Deddf Plant 2004 yn adeiladu ar y fframwaith a sefydlwyd yn Neddf Plant 1989, ac yn ei gryfhau. Mae nifer o ddarpariaethau yn Neddf 2004 sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â chyfrifoldebau asiantaethau i ddiogelu a hybu lles plant. Mae Adrannau 25, 26 ac 28 yn gofyn i awdurdodau lleol a'u partneriaid gydweithio i wella lles plant (gan gynnwys iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol) a diogelu a hybu eu lles.

- Mae Adran 25 yn sefydlu Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc statudol ac y mae adran 27 yn gofyn i gyfarwyddwyr arweiniol ac aelodau ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc, arwain y cydweithredu o ran y cyfeiriad strategol a datblygu gwasanaethau ar bob lefel. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau ynghylch y swyddogaethau hyn, sef "Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau", yn 2006.
- Mae Adran 26 Deddf 2004 yn gofyn i bob Partneriaeth gyhoeddi Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPI), gan amlinellu sut y byddant yn cydweithio i wella lles plant a phobl ifanc. Cynllun strategol 3 blynedd yw'r CPPI a fydd yn darparu gweledigaeth strategol, yn datgan y blaenoriaethau y cytunwyd arnynt a fydd yn cyfeirio gwaith yr holl bartneriaid, yn gosod targedau y cytunwyd arnynt ar y cyd, ac yn darparu sail i gynllunio gwasanaethau ar y cyd. Dyma'r prif ddatganiad o'r bwriad cynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc ac y mae'n rhaid i bob cynllun arall, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymdrin â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer plant a phobl ifanc, eu hystyried. Mae rhagor o fanylion i'w cael mewn canllawiau o'r enw *Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau*, a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth y Cynulliad. Mae gofyn i gynlluniau cyntaf, sy'n ymdrin â'r cyfnod 2008-11, gael eu mabwysiadau erbyn 31 Gorffennaf 2008 a'u cyhoeddi erbyn 30 Medi 2008.

## 2.2 Diogelu plant (adran 28)

Mae diogelu a hyrwyddo lles plant yn ymwneud ag amddiffyn plant rhag cam-drin ac esgeulustod, atal amharu ar eu hiechyd neu eu datblygiad, a gwneud yn siŵr eu bod yn cael gofal diogel ac effeithiol fel y gallant gael y cyfleoedd gorau un mewn bywyd. Yr unig ffordd y gellir cyflawni a chynnal canlyniadau gwell ar gyfer plant yw cael pobl a chyrff allweddol i gydweithio i gynllunio a darparu gwasanaethau mwy integredig ar sail anghenion plant a phobl ifanc.

Mae darparu'r amrediad gwasanaethau addysg ac atal a thriniaeth i blant a phobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau yn elfen allweddol yn y broses o ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Rhaid i ddarparwyr gwasanaethau sicrhau bod eu harferion gwaith yn cydymffurfio â'r canllawiau statudol, Diogelu Plant: Cydweithio gyda'n gilydd dan Ddeddf Plant 2004, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Hydref 2006. Mae'r canllawiau yma yn amlinellu'r modd y dylai sefydliadau ac unigolion gydweithio i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

## 2.3 Cynllunio

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn dymuno gweld cynnydd yn y defnydd o gynllunio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae Adran 25(6) Deddf 2004 yn rhoi'r grym i'r awdurdod lleol a'i brif bartneriaid statudol i ariannu ar y cyd a rhannu adnoddau. Mae Pennod 4 y canllawiau ar ddyletswyddau lleol i gydweithredu - *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau (LlCC 2006)* - yn amlinellu'r cefndir ar gyfer datblygu trefniadau o'r fath. Bydd pob CPPI yn darparu sail ar gyfer cynllunio ar y cyd yn lleol. Mae *Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau (LlCC 2007)*, yn atgyfnerthu'r angen i ystyried cyfleoedd ar gyfer ariannu ar y cyd (paragraffau 12.24-12.26). Gall ariannu ar y cyd fod yn arbennig o werthfawr wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth sydd angen pecynnau gofal gan nifer o asiantaethau a phartneriaid, fel gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

## 2.4 Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (NSF)

Mae strategaeth 10 mlynedd y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru (NSF) yn gosod safonau cenedlaethol er mwyn gwella a lleihau'r amrywiaeth yn y gwasanaeth a ddarperir i blant a phobl ifanc. Mae'n cynnwys 21 o safonau trawsbynciol a 203 o brif gamau gweithredu penodol a mesuradwy, sy'n gosod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd wrth wraidd y gwasanaethau. Seiliwyd y safonau a'r prif gamau gweithredu ar 42 erthygl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a saith amcan craidd Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae'r prif gamau gweithredu yn y NSF sy'n gyffredin i bob plentyn yn diffinio safonau ar gyfer y gwasanaethau cyffredinol y dylai pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru eu derbyn er mwyn cael yr iechyd a'r lles gorau un.

Mae Para: 2.46 yn datgan y dylai CPPIau (dan nod craidd 3) gynnwys elfennau allweddol strategaethau lleol, gan gynnwys gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Oherwydd hyn byddant yn sail i ddarparu Cynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau Lleol wedi'i ddatblygu gan y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.

## 2.5 Gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed

Nod strategaeth y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yw sicrhau bod gwasanaethau yn effeithiol ac yn effeithlon a'u bod, uwchlaw popeth arall, yn uno pob proffesiwn yn eu penderfyniad i roi anghenion plant a phobl ifanc wrth wraidd ein dull o drin CAMHS yng Nghymru.

Nid yw wedi ei anelu'n unig at y gwasanaethau iechyd, rheolwyr gwasanaethau gofal iechyd ar bob lefel a gweithwyr iechyd proffesiynol, (fel seiciatryddion plant a phobl ifanc, paediatregwyr, nyrsys a therapyddion) ond hefyd at staff a rheolwyr gwasanaethau cymdeithasol, addysg, asiantaethau cyfiawnder ieuenctid a'r sector gwirfoddol. Mae gan bob un ran i'w chwarae ac y mae pob un yn hanfodol i'r ymdrech ar y cyd i fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl sy'n effeithio ar bobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr, ac sy'n cyfrannu'n helaeth at broblemau ehangach mewn cymdeithas.

Cyhoeddir y strategaeth hon fel canllawiau y gellir monitro ac asesu gwasanaethau yn eu herbyn.

## 2.6 Deddf Galluedd Meddyliol

Deddfwriaeth yw'r Ddeddf Galluedd Meddyliol sy'n rhoi grym i bobl sy'n brin o adnoddau ac sy'n eu cynorthwyo; nid yw'n eu cyfyngu nac yn rheoli eu bywydau. Ei nod yw amddiffyn pobl nad oes ganddynt yr adnoddau i wneud penderfyniadau penodol, a hefyd i wneud y gorau o'u gallu i wneud penderfyniadau, neu gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau, cyn belled ag y gallant wneud hynny.

## 2.7 Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth

Mae datblygu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'n golygu bod rhaid rhoi sylw penodol i farn defnyddwyr y gwasanaeth. Mae is-grŵp arbenigol sy'n cynnwys rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol wedi cynhyrchu canllawiau arfer da i ddefnyddwyr gwasanaeth. Bydd y ddogfen yn ffurfio rhan o Fodiwl Defnyddwyr Gwasanaeth Fframwaith Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau (SMTF), y disgwylir y bydd yn cael ei ryddhau yn 2007.

## 2.8 Plant mewn angen a'u teuluoedd

Mae anghenion ac amgylchiadau plant yn amrywiol ac yn gymhleth. Mae deall yr hyn sy'n digwydd ym mywyd plentyn ac a fyddai ef neu hi yn cael budd o wasanaethau yn weithgaredd proffesiynol craidd i'r rhai hynny sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd.

Ystyrir bod plentyn mewn angen:

a) os yw'n annhebygol o gyflawni neu gynnal neu gael y cyfle i gyflawni neu gynnal, safon resymol o iechyd neu ddatblygiad oni bai bod yr awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau ar ei gyfer;

b) os yw ei iechyd neu ei ddatblygiad yn debygol o gael eu llesteirio'n sylweddol, neu eu llesteirio ymhellach, oni bai bod gwasanaethau o'r fath yn cael eu darparu ar ei gyfer; neu

c) ei fod yn anabl.

Ac y mae "teulu" mewn perthynas â phlentyn o'r fath, yn cynnwys unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant am y plentyn ac unrhyw berson arall y bu'n byw gydag ef.

Dylai pob aelod o staff sydd wedi, neu all ddod, yn ymwybodol o bryderon am les neu ddiogelwch plentyn neu blant wybod:

- pryd a sut i atgyfeirio i wasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol;
- pa wasanaethau sydd ar gael yn lleol;
- sut i gael gafael arnynt;
- pa ffynonellau o wybodaeth bellach ac arbenigedd sydd ar gael; a
- chyda phwy i gysylltu â nhw dan pa amgylchiadau, a sut.

## 2.9 Cyfeirio a Rhannu Gwybodaeth

Yn ystod cyfnod cynnar, dylai staff camddefnyddio sylweddau benderfynu a oes angen iddynt gynnwys y Gwasanaethau Cymdeithasol. Dylai staff fod wedi derbyn hyfforddiant er mwyn eu cynorthwyo i adnabod dangosyddion fod plentyn 'mewn angen' neu pan fydd pryderon amddiffyn plant a sut i'w cyfeirio'n briodol.

Mae gan wasanaethau cymdeithasol plant awdurdodau lleol, ynghyd ag asiantaethau eraill, gyfrifoldebau tuag at yr holl blant y gallai eu hiechyd neu eu datblygiad fod wedi ei lesteirio heb ddarpariaeth gwasanaethau, neu sy'n anabl (diffinnir yn Adran 17 Deddf Plant 1989 fel plant 'mewn angen'). Dylai'r holl asiantaethau sydd â chyfrifoldebau o'r fath:

- gytuno gyda meini prawf partneriaid Byrddau Lleol Diogelu Plant gyda gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol lleol ynglŷn â pha bryd y mae'n briodol cyfeirio at wasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol ynghylch plentyn mewn angen;
- fod â fformat cytun ar gyfer cyfeirio a rhannu'r wybodaeth a gofnodwyd.

Os oes rhywun yn credu y gall plentyn fod yn dioddef, neu y gallai fod mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, yna dylai gyfeirio ei bryderon bob amser cyn gynted â phosibl at wasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol. Yn ogystal â'r gwasanaethau cymdeithasol, mae gan yr heddlu a'r NSPCC bwerau i ymyrryd o dan yr amgylchiadau hyn. Er y dylai gweithwyr proffesiynol, yn gyffredinol, drafod unrhyw bryderon gyda'r teulu a, lle bo modd, geisio eu cytundeb er mwyn cyfeirio at wasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol **dylid gwneud hyn, yn unig pan na fydd trafodaethau a cheisio cytundeb o'r fath yn gosod plentyn mewn mwy o berygl o niwed sylweddol**.

Bydd rhannu gwybodaeth ynglŷn ag achosion sy'n peri pryder yn galluogi sefydliadau i ystyried ar y cyd sut i barhau er lles y plentyn ac er mwyn diogelu plant yn gyffredinol. Rhoddir rhagor o ganllawiau ynglŷn â rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau yn Diogelu Plant: Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004, pennod 14.

### Cyfrinachedd

Pan fydd person iau wedi ei nodi fel un sydd ag anghenion a allai ddeillio, yn rhannol o leiaf, o'i ddefnydd neu ei gamddefnydd o sylweddau, mae'n bwysig bod asesiad cynhwysfawr o'r rheiny ac o'i anghenion eraill yn digwydd. Ond, fel yr eglurir mewn canllawiau perthnasol, nid yw'r ymrwymiad i gyfrinachedd yn un absoliwt a gellir ei dorri pan fydd hyn er lles y plentyn ac er lles y cyhoedd yn gyffredinol. *Diogelu Plant: Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 pennod 8 a phennod 14.*

Pan fydd person iau wedi ei nodi fel un sydd ag anghenion a allai ddeillio, yn rhannol o leiaf, o'i ddefnydd neu ei gamddefnydd o sylweddau, mae'n bwysig bod asesiad cynhwysfawr o'r rheiny ac o'i anghenion eraill yn digwydd.
I'r diben hwn:

- Os teimlir bod plentyn yn blentyn 'mewn angen' (fel y'i diffinnir yn Neddf Plant 1989) dylid ei gyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol fel y gallant gyflawni asesiad o anghenion y plentyn. Os ydynt yn teimlo bod y plentyn mewn angen dylent gydlynu cynllun cymorth ac ymyriad ar gyfer y plentyn hwnnw (gan dynnu ar wasanaethau eraill er mwyn diwallu anghenion

penodol megis y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau). Bydd yr un broses yn berthnasol os yw'r plentyn angen ei amddiffyn neu dderbyn gofal. Yn yr achosion hyn, bydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn arwain cydlyniad cyffredinol yr achos.

- Dylid cynnal asesiad arbenigol ar gamddefnyddio sylweddau gan ddarparwyr gwasanaeth camddefnyddio sylweddau er mwyn nodi holl anghenion camddefnyddio sylweddau'r plentyn. Os yw'r gwasanaethau cymdeithasol yn rhan o hyn, bydd yn llunio elfen o'r cynllun cyfan ar gyfer y plentyn.
- Os nad yw'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn teimlo bod y plentyn 'mewn angen' efallai na fyddant yn dod yn rhan o bethau ond gall y plentyn barhau i fod ag anghenion y gellir eu diwallu gan asiantaethau eraill er enghraifft, gall y gwasanaeth camddefnyddio sylweddau ddal ati gyda chynllun ymyriad ar gyfer y plentyn hwnnw.
- Efallai fod y Fframwaith Asesu Cyffredin (http://www.cafwales.co.uk) yn ffordd o gefnogi atal mwy effeithiol ac ymyriad buan trwy adnabod plant allai gael budd o dderbyn gwasanaethau ychwanegol mewn cyfnod cyn bod angen cyfeirio at wasanaethau cymdeithasol. Fe all hefyd helpu gweithwyr ac asiantaethau i benderfynu pwy fyddai yn y sefyllfa orau i ddarparu'r gwasanaethau hyn. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhedeg prosiectau peilot yng Nghymru i brofi effeithiolrwydd system eCAF sy'n seiliedig ar TG er mwyn sicrhau bod CAF yn gallu gweithio i'w botensial llawn. Fodd bynnag, bydd pob Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc lleol a'i hasiantaethau cysylltiedig yn sefydlu trefniadau lleol fydd yn cydgysylltu cynllunio, comisiynu a darparu gwasanaethau. Fe ddylai'r rhain gynnwys partneriaethau perthnasol yn y broses fel y mae gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, er enghraifft, gyfrifioldebau sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau y mae CAF yn berthnasol iddynt. Bydd gweithredu CAF yn cynorthwyo'r broses yma trwy ddarparu integreiddio yn y camau cynharaf o ymyriadau dan arweiniad ymarferwyr ar y cyd ymlaen i ddatblygiadau strategol lefel uchel.

Mae'n rhaid i asesu arbenigol camddefnyddio sylweddau gynnwys:

- lefel y defnydd o sylweddau;
- llwybr y defnydd;
- ystyriaeth o'r posibilrwydd fod pobl iau yn ddibynnol ar sylweddau neu'n gaeth iddynt neu y gallant ddod yn ddibynnol neu'n gaeth;
- ystyr, canlyniadau a chymhlethdodau patrwm o ddefnyddio neu gamddefnyddio sylweddau ar gyfer pob plentyn iau a'u teuluoedd;
- materion corfforol a meddyliol;
- ffactorau risg - bydd hyn yn dynodi a oes angen i'r achos gael ei gyfeirio at y Gwasanaethau Cymdeithasol.

## 2.10 Fframwaith asesu

Datblygwyd y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd (Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Swyddfa Gartref 2001) i roi dull systematig o gasglu, dadansoddi a chofnodi'r hyn sy'n digwydd i blant a phobl ifanc oddi

mewn i'w teuluoedd a'r gymuned ehangach y maen nhw'n byw ynddi, i bawb sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd. Sail y Fframwaith Asesu yw damcaniaeth, casgliadau ymchwil a gwybodaeth ymarfer o nifer o ddisgyblaethau. Defnyddiwyd hyn i nodi'r elfennau allweddol oedd yn dylanwadu ar ddatblygiad plant, ac mae'n rhaid i unrhyw asesiad o'u hanghenion eu hystyried:

- anghenion datblygiadol y plentyn;
- gallu rhieni i ymateb i'r anghenion hyn; a'r
- teulu a'r gymuned ehangach y mae'r plentyn yn byw ynddynt.

Mae dadansoddi'r meysydd hyn a pherthynas y naill i'r llall yn fodd i weithwyr proffesiynol ddeall yr hyn sydd, yn anorfod, yn faterion a chydberthnasau cymhleth; yna gellir ffurfio barn glir a phroffesiynol. Mae hyn yn cynnwys penderfynu a yw'r plentyn sy'n cael ei asesu mewn angen, a yw'r plentyn yn dioddef neu'n debygol o ddioddef niwed sylweddol, pa gamau ddylid eu cymryd a pha wasanaethau fyddai'n diwallu anghenion y plentyn arbennig hwn a'i deulu orau.

Ni all un asiantaeth yn unig ddiwallu anghenion plant; datblygwyd y fframwaith asesu er mwyn darparu fframwaith cysyniadol cyffredin y gallai pob asiantaeth ei ddefnyddio.

Dylid nodi, lle bo plentyn yn cael ei gartrefu mewn lleoliad iechyd neu addysg am gyfnod mwy na 3 mis (neu fod hynny wedi'i drefnu), gwneir atgyfeiriad i'r gwasanaethau cymdeithasol i benderfynu a oes angen asesiad holistig dan y Fframwaith Asesu hwn.

## 2.11 Plant sy'n Derbyn Gofal

Disgrifir plant sy'n cael eu cartrefu gan awdurdodau lleol neu sydd yn eu gofal fel 'plant sy'n derbyn gofal'. Dyma un o'r grwpiau mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae'r mwyafrif o'r plant sy'n parhau i fod mewn gofal yno am eu bod wedi dioddef cam-drin neu esgeulustod.

Mae'n hanfodol bod plant sydd â phroblemau'n deillio o gamddefnyddio sylweddau, neu sy'n gysylltiedig â hynny, yn cael eu hadnabod yn fuan drwy eu prosesau asesu iechyd, adolygiadau a chynllunio gofal a'u bod yn derbyn ymyriadau priodol o ganlyniad i hynny.

Mae rhianta corfforaethol yn pwysleisio cyfrifoldeb cyfun yr awdurdod lleol i weithredu fel rhiant da i'r plant y mae'n gofalu amdanynt a'r angen i bob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol gyfrannu at y broses o gyflawni'r canlyniadau gorau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. I blant sy'n derbyn gofal bydd swyddogaeth eu gofalwyr o ddydd i ddydd, gofalwyr maeth er enghraifft, yn bwysig yn y cyd-destun hwn.

## 2.12 Hunanladdiad, ymgais at hunanladdiad a chamddefnyddio sylweddau

Dylai gwasanaethau fod yn ymwybodol o'r cysylltiad rhwng camddefnyddio sylweddau a hunanladdiad neu ymgais at hunanladdiad. Mae ymchwil yn awgrymu cysylltiad cryf gydag achosion o hunanladdiad ar ôl ymgais blaenorol

at hunanladdiad a bod rhai sy'n camddefnyddio sylweddau yn fwy tebygol nag unigolion eraill oedd wedi ceisio lladd eu hunain o wneud ymgais arall at hunanladdiad. Mae'n debygol bod y dadataliad a gynhyrchir yn sgil meddwi ar alcohol yn hwyluso syniadau o hunanladdiad ac yn aml mae syniadau'n cael eu troi'n weithredoedd ar ysgogiad sydyn.

Pobl ifanc sydd â phroblemau lluosog sydd yn y perygl mwyaf o hunanladdiad. Mae ymchwil cyfredol yn awgrymu mai'r ffactorau perygl cryfaf ar gyfer hunanladdiad mewn pobl ifanc yw anhwylderau meddwl, yn enwedig anhwylderau affeithiol, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn aml iawn mae ymddygiad sy'n tueddu at hunanladdiad mewn pobl ifanc yn ymddangos o ganlyniad i ddigwyddiadau anffafriol mewn bywyd lle mae ffactorau risg lluosog yn cyfuno i gynyddu'r perygl o ymddygiad sy'n tueddu at hunanladdiad.

Mae'n bwysig bod gwasanaethau sydd mewn cyswllt â phobl ifanc agored i niwed yn cynnal asesiad risg o'r unigolyn ifanc gan roi cyngor a chefnogaeth addas, yn cynnwys cefnogaeth i gael mynediad at wasanaethau arbenigol.

Rhoddir mwy o fanylion ar fater atal hunanladdiad yng Nghynllun Gweithredu Atal Hunanladdiad Llywodraeth y Cynulliad.

## 2.13 Elfennau allweddol

Mae'r fframwaith hwn yn mynd i'r afael â phrif elfennau ymateb cynhwysfawr i'r bygythiadau i blant a phobl ifanc sy'n deillio o amrywiaeth o sylweddau. Mae'r elfennau hyn fel a ganlyn:

- **Rhaglenni Addysg Gynnar Gyffredinol** - mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth gywir a chytbwys am sylweddau, y defnydd a'r camddefnydd a wneir ohonynt, i blant a phobl ifanc;
- **Rhaglenni wedi'u Targedu** - sy'n fodd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn trafodaethau ymhlith ei gilydd a chydag oedolion gwybodus â'r nod o wella eu dealltwriaeth o'r modd y gallant ymateb i bresenoldeb endemig sylweddau yn ein cymunedau;
- **Ymyriadau i Wella Potensial** - sefydlwyd y rhain i atal plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc rhag symud o ddefnyddio a chamddefnyddio sylweddau drwy ragweld effeithiau ffactorau risg/amddiffynnol a chynyddu gwydnwch unigolion;
- **Rhaglenni Dynodedig (y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel triniaeth)** - mae'r rhain yn cael eu darparu fel rhaglenni asesu, ymyriad a gofal unigol a chynlluniedig ar gyfer plant arbennig neu bobl ifanc a nodwyd sy'n camddefnyddio sylweddau.

Cyfeirir at arferion da gydol Rhan B y ddogfen a chynhwyswyd atodiadau manylach ar gyfer arferion da penodol mewn meysydd fel rhagnodi ac asesu.

# 3. Cwmpas y ddogfen

## 3.1 Y grŵp cleientiaid

Yn y fframwaith hwn, disgrifir y termau a ddefnyddir mewn perthynas ag oed isod:

| | |
|---|---|
| Plant: | Pobl rhwng dydd eu geni a throthwy eu pen-blwydd yn 11 oed |
| Pobl ifanc: | Pobl rhwng 11 oed hyd at drothwy eu pen-blwydd yn 18 oed |
| Oedolion ifanc: | Pobl rhwng 18 oed hyd at drothwy eu pen-blwydd yn 25 oed |
| Pobl iau: | Term cyffredinol sy'n cyfeirio at bawb sydd dan 25 oed sydd, felly, yn cynnwys plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc |

Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys y 4 grŵp yma.

## 3.2 Sylweddau a gynhwysir yn y fframwaith

Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys yr amrediad llawn o sylweddau sy'n cael eu camddefnyddio yng Nghymru gan gynnwys:

- cyffuriau anghyfreithlon fel heroin, cocên, ecstasi, amffetaminau, LSD, canabis
- alcohol
- meddyginiaethau a ragnodir, fel steroidau anabolig a bensodiasepin
- meddyginiaethau y gellir eu prynu dros y cownter fel rhai sy'n cynnwys codeine neu ephedrine
- sylweddau anweddol fel tanwydd erosol, bwtan, toddyddion, gludion.

# 4. Patrymau defnyddio a chamddefnyddio sylweddau

## 4.1 Llwybrau

Mae'n anodd bod yn hyderus hefyd wrth nodi pa lwybrau penodol sy'n arwain at gamddefnyddio sylweddau.

Er ei bod yn ymddangos yn debygol bod defnyddio sylweddau'n gysylltiedig â nifer o ffactorau risg (mae cefndir teuluol a dylanwad cyfoedion sy'n defnyddio cyffuriau ymhlith y rhai pwysicaf), mae'n parhau i fod yn amhosibl proffwydo ag unrhyw sicrwydd a fydd person ifanc yn penderfynu cychwyn defnyddio, parhau i ddefnyddio, neu gynnal defnydd yn ddigonol i ddatblygu dibyniaeth a/neu broblemau cysylltiedig.

Mae ymchwil yn cadarnhau bod cydadwaith cymhleth yn gyffredinol rhwng y ffactorau ym mywydau pobl ifanc sy'n eu gwneud yn fwy tebygol o ddatblygu problemau a'r nodweddion sy'n hybu eu gwydnwch. Er enghraifft, gyda chynnydd yn nifer yr achlysuron pryd y mae pob plentyn neu berson ifanc yn dod i gyffyrddiad ag anfantais, digwyddiadau bywyd llawn straen a ffactorau eraill sy'n cynyddu risg, mwyaf yn y byd hefyd yw eu siawns o ddatblygu problemau o wahanol fathau gan gynnwys camddefnyddio sylweddau. Mae ymchwil mewn meysydd eraill sy'n gysylltiedig ag iechyd gwael yn awgrymu hefyd bod effeithiau ffactorau risg, ac a yw anghenion plant yn cael eu hateb ai peidio, yn cael eu canoli fel arfer drwy'r rhai sy'n rhoi gofal, ac ymhlith y ffactorau mae:

- tlodi a methiant i ddiwallu anghenion materol plant;
- problemau ag arferion magu plant;
- patrymau a pherthnasau ymlyniad anfoddhaol;
- seicopatholeg rhiant; a
- methiant gwasanaethau i ymateb i amrediad anghenion plant ac ymyrryd yn ataliol dan amgylchiadau y gellir eu datrys (e.e. peidio â darparu ymatebion digonol i fwlio).

Gyda'i gilydd, mae'r nodweddion y cyfeirir atynt yn rhai o nodweddion amlwg eithrio cymdeithasol, term sydd wedi disodli termau fel tlodi ac amddifadedd i raddau helaeth wrth ddisgrifio natur patrymau cyfoes o ddifreintedd economaidd-gymdeithasol. Mae'n nodedig fel cysyniad i'r graddau y mae'n pwysleisio natur amlochrog, berthynol a deinamig anfantais.

## 4.2 Grwpiau sydd mewn perygl

Ar sail y peryglon a'r cydgysylltiadau a gyflwynwyd mae'n debygol fod plant a phobl ifanc mewn mwy o berygl o ddefnyddio a chamddefnyddio sylweddau:

- os oes ganddynt broblemau dysgu;
- os oes ganddynt anableddau dysgu;
- os ydynt yn colli'r ysgol yn gyson ac yn bobl ifanc sydd wedi eu heithrio o'r ysgol;

- os ydynt yn bobl iau nad ydynt yn y meysydd addysg, gwaith na hyfforddiant;
- os ydynt yn bobl iau sy'n byw mewn mannau difreintiedig a mannau llai cyfoethog;
- os oes ganddynt broblemau iechyd meddwl neu anhwylderau meddyliol;
- os oes ganddynt afiechyd corfforol;
- os ydynt yn rhieni yn eu harddegau;
- os ydynt yn blant i rieni sy'n camddefnyddio sylweddau;
- os ydynt yn blant a phobl ifanc sy'n ofalwyr;
- os ydynt yn blant i rieni sydd ag anhwylder meddyliol;
- os ydynt yn ymwneud â throsedd ac yn bobl iau sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cyfiawnder troseddol;
- os ydynt yn blant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol;
- os ydynt yn bobl ifanc ddigartref;
- os ydynt yn agored i buteindra neu ymelwa rhywiol; a/neu
- yn agored i gael eu cam-drin yn rhywiol.

## 5. Y fframwaith strategol pedair haen

Mae'r canllawiau a gynhwysir yn y ddogfen hon yn golygu bod angen i nifer sylweddol o sectorau, asiantaethau, sefydliadau a phroffesiynau ddod at ei gilydd i gynhyrchu'r gwasanaethau cynhwysfawr sydd eu hangen. Yn y cyd-destun hwn cyfeirir at y cysyniad cynllunio strategol pedair haen a seiliwyd ar y swyddogaethau sydd eu hangen gan wasanaethau mewn perthynas â lefel neu gymhlethdod anghenion pobl iau, eu barn a lefelau arbenigedd y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen.

Mae'r haenau fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Haen 1: | Gwasanaethau lefel sylfaenol cyffredinol |
| Haen 2: | Gwasanaethau wedi'u cyfeirio at bobl ifanc |
| Haen 3: | Gwasanaethau a ddarperir gan dimau sy'n arbenigo mewn trin pobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau |
| Haen 4: | Gwasanaethau arbenigol iawn ar gyfer pobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau |

Bwriad y cysyniad haenog yw bod yn ddull hyblyg a deinamig sy'n darparu fframwaith lle gellir cysyniadu swyddogaethau gwasanaethau cynhwysfawr a pherthnasau rhwng y rhai sy'n eu cynllunio a'r darparwyr, a rhwng y gwasanaethau, ar draws ac ar hyd yr haenau. Mae'n pwysleisio gweithgareddau a swyddogaethau yn hytrach na disgyblaethau gweithwyr proffesiynol neu enwau sectorau ac asiantaethau ac y mae'n hybu'r broses o integreiddio rhwng sectorau, asiantaethau a disgyblaethau. Mae hefyd yn mapio'n fras ar y categorïau a fabwysiadwyd ar gyfer disgrifio gwasanaethau cynhwysfawr yn 2 uchod.

Mae'n bwysig pwysleisio ei bod yn ddilys i nifer o asiantaethau darparu gyflwyno gwasanaethau o fwy nag un math, sy'n rhan o fwy nag un haen.

# Adran C - rhaglenni ac ymyriadau

## 6. Gwasanaethau addysg gyffredinol

### 6.1 Cyd-destun

Mae pob person ifanc yng Nghymru sydd rhwng 11 a 18 oed angen gwasanaethau addysg sy'n rhoi gwybodaeth i bobl iau ac yn eu helpu i ddelio â'r pwysau i ddefnyddio sylweddau y maen nhw'n debygol o wynebu. Maen nhw'n parhau i fod yn ganolog i'r broses o ddarparu ymateb effeithiol gan bob PDC.

Prif fwriad rhaglenni addysgol yw rhoi gwybodaeth gywir a chytbwys am sylweddau a sut y maen nhw'n cael eu defnyddio a'u camddefnyddio. Dylent fod ar gael yn gyffredinol a'u rhoi ar sail barhaus ac ailadroddol sy'n gweddu i allu addysgol cynhenid pob plentyn.

Mae datblygu cwricwlwm a system ABCh effeithiol fel ategiad i addysg am sylweddau yn hanfodol i'r broses o ddarparu rhaglenni o'r math hwn.

### 6.2 Mynediad ac amcanion

Dylai'r system addysg statudol a'r cyrff sector cyhoeddus statudol a gwirfoddol perthnasol ddarparu mynediad i wybodaeth am sylweddau. Mae angen cyfleusterau ychwanegol ar staff asiantaethau sy'n cymryd rhan mewn darparu gwasanaethau ar bob un o'r haenau. Y rheswm am hyn yw bod addysg am sylweddau a chamddefnyddio sylweddau yn rhan o'r mwyafrif o gynlluniau atal a thrin.

Dylai'r dull a ddefnyddir gynnwys yr amcanion canlynol:

- Cynyddu gwybodaeth am sylweddau gan gynnwys alcohol a thybaco.
- Darparu amgylchedd lle mai'r peth arferol yw peidio â defnyddio cyffuriau na thybaco a pharchu'r defnydd synhwyrol o alcohol e.e. drwy ddatblygu'n ysgol sy'n hybu iechyd.
- lleihau'r defnydd a/neu ohirio dechrau defnyddio am y tro cyntaf.
- cyfrannu at leihau'r niwed a achosir i bobl sy'n defnyddio neu'n camddefnyddio sylweddau.

### 6.3 Nodweddion y cynnwys

Dylid diffinio deunyddiau addysgol drwy gadw at egwyddorion allweddol. Mae pobl ifanc wedi nodi eu bod angen deunyddiau dysgu sy'n:

- ffeithiol;
- cywir; ac
- nad ydynt yn barnu.

Prif angen pobl ifanc yw gwybodaeth am ddefnyddio sylweddau  a disgrifiadau manwl o effaith a risg defnyddio sylweddau penodol. Maen nhw angen cymorth hefyd i ddatblygu gwerthoedd, agweddau a sgiliau a fydd yn eu helpu i wneud

penderfyniadau mewn perthynas â defnyddio sylweddau. Dylai athrawon, arweinwyr ieuenctid ac ati asesu deunyddiau'n feirniadol i sicrhau nad ydynt yn mynd yn groes i brofiadau personol disgyblion neu os yw'n ymddangos eu bod wedi eu seilio ar or-ddweud gan oedolion. Dylai deunyddiau dysgu adlewyrchu dymuniadau pobl ifanc i allu adnabod y gwahanol sylweddau sydd ar gael a'r llwybrau i wasanaethau lle gellir cael help. Yn y modd yma, dylai cynnwys eu dysgu adlewyrchu patrymau gwasanaeth a rhoi manylion am bwyntiau cyswllt.

## 6.4 Darpariaeth ac arddull

Mae arfer da wrth gyflwyno rhaglenni'n awgrymu y dylai dulliau fod yn:

- rhyngweithiol;
- cyfranogol - ysgogi a chodi hyder;
- cywiro coelion anghywir;
- gallu darparu cyfleoedd ymresymu gwahanol er mwyn herio coelion cyfoedion tra'n rhoi gwerth ar farn pobl ifanc;
- yn berthnasol i fywyd cymdeithasol go iawn pobl ifanc; ac
- yn arloesol drwy ddefnyddio amrywiaeth o arddulliau dysgu.

## 6.5 Asiantaethau, personél a lleoliadau

Mae gan yr asiantaethau canlynol rôl i'w chwarae o ran cynllunio a darparu addysg ynghylch sylweddau a chamddefnyddio sylweddau:

- ymgynghorwyr ABCh o'r AALl;
- yr heddlu drwy'r Rhaglen ysgolion Cymru gyfan;
- cydgysylltwyr Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru;
- asiantaethau sector gwirfoddol sy'n ymwneud â defnyddio a chamddefnyddio sylweddau (e.e. am gyngor mwy arbenigol am sylweddau a gwybodaeth am wasanaethau perthnasol eraill);
- awdurdodau addysg lleol, drwy gynlluniau i ddarparu seilwaith digonol mewn ysgolion a chanolfannau ieuenctid sy'n gydnaws â darparu addysg effeithiol a derbyniol ar sylweddau a chamddefnyddio sylweddau.

Ar ben hynny, gall fod o gymorth i gynnwys asiantaethau a sefydliadau statudol eraill pryd bynnag y bo hynny'n ymddangos yn berthnasol (e.e. parafeddygon o'r gwasanaeth ambiwlans a staff Gwasanaeth Carchar Ei Mawrhydi).

Mae ysgolion yn amlwg yn fannau pwysig ar gyfer darparu rhaglenni addysg ac mae gan staff dysgu rôl bwysig i'w chwarae. Fodd bynnag, prif bwysigrwydd ysgolion fel lleoliad yw eu bod yn rhoi cyfle i amrywiaeth eang o asiantaethau allanol ddarparu arbenigedd. Mae'r heddlu a'r sector gwirfoddol yn dod ag arbenigedd ac elfen o hygrededd nad yw myfyrwyr yn eu priodoli i staff dysgu o angenrheidrwydd. Gall athrawon ategu'r arbenigedd hwn drwy ddarparu addysg barhaus sy'n sail i'r cyfraniadau a wneir gan arbenigwyr sy'n ymweld.

Ar ben hynny, mae'r gwasanaethau ieuenctid, gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau gofal a chymdeithasau cymunedol eraill yn bwyntiau cyswllt eilaidd pwysig. Efallai mai'r asiantaethau hyn fydd yr unig bwyntiau cyswllt ar gyfer pobl iau sydd mewn perygl fwyaf gan gynnwys plant sydd wedi eu heithrio o ysgol, sy'n derbyn gofal, a/neu wedi eu dieithrio o'r ysgol. Mae angen gwasanaethau sy'n gymorth i ddarparu negeseuon cyson mewn ysgolion drwy sicrhau bod pobl ifanc nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn cael addysg am sylweddau (e.e. y rhaglen Get Sorted yn Rhondda Cynon Taf). Mae angen bod yn greadigol i sicrhau bod y gwasanaethau hyn ar gael.

Mae'r dull hwn yn golygu bod angen i athrawon a staff mewn gwasanaethau i bobl ifanc gael hyfforddiant a chymorth ynghylch sut i ddarparu addysg am sylweddau a chamddefnyddio sylweddau a dosbarthu deunyddiau cwricwlwm sy'n rhoi negeseuon cyson yn ehangach.

Dylai hyfforddiant fod ar gael ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol perthnasol ac mae angen i staff dynodedig sydd yn gyfrifol am addysgu pobl ifanc sy'n mynychu eu sefydliadau gael hyfforddiant uwch am sylweddau a chamddefnyddio sylweddau.

Gall defnyddio pobl sydd â hanes o gamddefnyddio sylweddau i ddarparu rhaglenni addysgol fod yn ddefnyddiol ond mae angen monitro rhaglenni o'r fath er mwyn sicrhau eu bod o safon ac yn gyson a dylid hyfforddi cyn-ddefnyddwyr cyn iddynt gael eu defnyddio fel addysgwyr.

Mae manteision posibl i addysg a arweinir gan gyfoedion mewn cynllun cyffredinol a chynhwysfawr sy'n cysylltu gwahanol ddulliau. Gall hyn fod o werth arbennig i fyfyrwyr sy'n anodd eu cyrraedd ac ar gyfer grwpiau 'cuddiedig'. Mae addysg a arweinir gan gyfoedion yn cynnig manteision hefyd i'r bobl ifanc sy'n hyfforddi i fod yn addysgwyr cyfoedion; mae'n cynyddu eu gwybodaeth, eu hymwybyddiaeth a'u hunan-barch.

Ni ddylid eithrio pobl iau o raglenni addysgol am fod ganddynt anawsterau, problemau neu anableddau dysgu. Oherwydd hynny, ni ddylai unrhyw raglen ddibynnu ar wybodaeth ysgrifenedig neu fod yn anwybodus am y goblygiadau i addysg sy'n deillio o broblemau pobl ifanc gyda darllen. Rhaid cymryd gofal wrth gynllunio patrymau cyflwyniadau, eu cynnwys a chymhorthion effeithiol.

*Mae plant sy'n colli'r ysgol neu sy'n cael eu heithrio o'r ysgol mewn llawer mwy o berygl o ddefnyddio a chamddefnyddio sylweddau. Oherwydd hynny ni ddylai unrhyw blentyn neu berson ifanc gael ei atal rhag cael mynediad i wasanaeth addysg cyffredinol oherwydd eu bod allan, neu wedi eu heithrio, o addysg brif ffrwd am unrhyw reswm. Mae hyn yn gofyn am ddulliau arloesol, wedi eu seilio yn y gymuned, o ddarparu rhaglen addysgol gyffredinol lawn lle mae swyddogaethau, gweithgareddau a negeseuon a gyflwynir gan ysgolion ac asiantaethau cymunedol eraill wedi eu cydgysylltu'n dda.*

Dylai rhaglenni cyffredinol fod ar gael i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru a dylid cydgysylltu'r broses o'u cynllunio a'u darparu yn lleol ar lefelau awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a phartneriaethau diogelwch cymunedol.

# 7. Rhaglenni dewisol neu raglenni wedi'u targedu

## 7.1 Diffiniad

Rhaglenni dewisol neu raglenni wedi'u targedu yw'r rhaglenni hynny gaiff eu cyfeirio'n benodol at grwpiau o blant, pobl ifanc neu oedolion ifanc yr ystyrir bod eu proffil risg a'u ffactorau gwrthsefyll yn eu gosod mewn mwy o berygl o naill ai ddefnyddio sylweddau neu symud o'u defnyddio i'w camddefnyddio.

Mae dau fath cyffredinol o raglenni dewisol neu raglenni a dargedir:

- y rhai hynny'n sy'n canolbwyntio ar roi sylw i ffactorau risg a chynyddu gwydnwch. (Mae'r rhaglenni hyn yn rhagweld effaith risg a ffactorau diogelu drwy weithredu er mwyn cynyddu gallu unigolion i wrthsefyll ac er mwyn mynd i'r afael â'r ffactorau yn eu bywydau sy'n eu gosod mewn mwy o berygl o gamddefnyddio sylweddau, a'u lleihau, a gwneud hynny drwy hyrwyddo eu cynhwysiant cymdeithasol neu eu hasesu a threfnu ymyriadau ar gyfer unrhyw broblemau neu anhwylderau cysylltiedig, er enghraifft);
- rhaglenni atal camddefnyddio sylweddau penodol.

Gellir cyflwyno rhaglenni dewisol fel ymyriadau ar eu pen eu hunain neu gellir eu darparu fel datblygiadau o raglenni cyffredinol. Enghreifftiau da o raglenni o'r fath yw dulliau mewn ysgolion er mwyn lleihau bwlio a'i effaith ar grwpiau penodol o bobl ifanc. Prif fwriad y mathau hyn o raglenni dewisol yw lleihau'r risg a wynebir, a chynyddu gwydnwch grwpiau penodol a nodwyd o blant a phobl ifanc. Yn yr un modd, cynigir rhai rhaglenni rhianta i bawb fel rhaglenni cyffredinol tra bydd eraill yn canolbwyntio mwy er mwyn ymateb i anghenion penodol plant a phobl ifanc a'u teuluoedd sydd mewn mwy o berygl.

## 7.2 Gwasanaethau sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor manylach am gyffuriau a gwasanaethau

Mae galw am wasanaethau wedi'u targedu neu wasanaethau dewisol sy'n darparu swyddogaethau tebyg i'r rheiny sydd ar gael yn gyffredinol. Gall rhai asiantaethau sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor gynnig gwasanaethau cynghori cyffredinol yn ogystal â rhai arbenigol.

## 7.3 Gwasanaethau atal

Prif ganolbwynt gwasanaethau sy'n cynnig rhaglenni atal yw oedi neu leihau'r posibilrwydd o blant, pobl ifanc ac oedolion ifanc a nodwyd yn symud o ddefnyddio i gamddefnyddio sylweddau, neu er mwyn lleihau'r defnydd ac yn enwedig, lle bo'n berthnasol, er mwyn osgoi eu gweld yn mynd ymlaen at 'ddefnydd dibynnol'. Yn gyffredinol, dylai'r rhaglenni hyn fod yn un o ddau fath:

- **atal sylfaenol** - rhaglenni a fwriedir er mwyn cynorthwyo pobl iau sy'n defnyddio sylweddau i ymwrthod neu oedi rhag symud at gamddefnyddio); ac
- **atal eilaidd** - rhaglenni a fwriedir er mwyn lleihau lefel y camddefnydd neu'r niwed y mae'r person iau yn ei wynebu (h.y. dychwelyd at ddefnyddio yn hytrach na chamddefnyddio) neu i gynorthwyo pobl iau a nodwyd gyda dychwelyd at ymatal.

Mae sawl gwasanaeth atal hefyd yn rhoi sylw i leihau ffactorau risg a chynyddu'r gallu i wrthsefyll. Y maen nhw felly'n cyfuno'r ddau fath eang o raglenni dewisol neu raglenni a dargedir. Er enghraifft, gall pecynnau atal gynnwys rhaglenni cynhwysiant cymdeithasol sy'n cynnig amrediad o chwaraeon a gweithgareddau eraill. Y bwriad penodol yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn aros yn rhan o gydrannau mwy penodol neu arbenigol y rhaglen a'u bod yn gallu ailgysylltu â'u teuluoedd, eu haddysg a'u cymuned yn well, heb wynebu'r union beryglon a gyfrannodd at eu camddefnydd o sylweddau.

Mae ar wasanaethau atal hefyd angen y gallu a'r cymwysterau er mwyn hwyluso mynediad eu cleientiaid at amrediad eang o wasanaethau cymunedol. Unwaith eto, y bwriad yw sicrhau bod y bobl iau dan sylw yn cael mynediad at wasanaethau craidd mewn iechyd, addysg, tai a chymorth teulu a bod ganddynt hefyd fynediad rhwydd at wasanaethau arbenigol camddefnyddio sylweddau pan fydd canlyniad yr asesiad yn nodi bod arnynt eu hangen.

Yn gyffredinol, y math o ymyriad a ddarperir gan wasanaethau atal yw gwasanaethau ymyriad cynnar ar gyfer pobl iau sydd wedi defnyddio sylweddau ond ar lefel isel o ddifrifoldeb. Bydd pobl ifanc y mae eu hanghenion wedi mynd y tu hwnt i'r lefelau hyn fel arfer angen y gwasanaethau a nodir gan asiantaethau arbenigol trin camddefnyddio sylweddau.

# 8. Rhaglenni dynodedig (gan gynnwys triniaeth)

## 8.1 Asesu

### 8.1.1 Diffiniad

Asesu yw'r broses sy'n peri i ymyriad gychwyn. Mae'r ffordd yr ymdrinnir â hyn yn aml yn fater pwysig wrth benderfynu a fydd pobl ifanc a'u teuluoedd yn parhau i ddefnyddio'r gwasanaethau a gynigir iddynt.

Proses yn hytrach na digwyddiad yw asesu. Ei nod cyffredinol yw y dylai arwain at ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u hintegreiddio a'u targedu'n dda gan yr amrywiol sectorau sy'n dod at ei gilydd er mwyn bodloni anghenion unigol pob person iau o ran addysg, gwaith, datblygiad, cymdeithasu, perthynas, hamdden, gofal iechyd ac anghenion ysbrydol. Nod canolog asesu yw canfod i ba raddau y mae sylweddau'n effeithio ar iechyd, gofal, addysg a lles pob person iau a ystyrir.

## 8.2 Diffiniad

Darperir rhaglenni dynodedig fel rhaglenni asesu, ymyriad a gofal unigol a chynlluniedig ar gyfer plant neu bobl ifanc penodol sydd yn camddefnyddio sylweddau. Mae'r rhaglenni hyn yn cynnwys asesu amrediad llawn o holl ystod anghenion gofal pob plentyn a darparu ymatebion er mwyn ateb yr anghenion hynny gyda'r bwriad o ddatrys problemau cyfredol ac adfer unigolion i beidio â defnyddio cyffuriau. Pan na fydd hynny'n bosibl, anelir rhaglenni dynodedig at leihau'r niwed i'r bobl iau a/neu i eraill allai ddigwydd pe baent yn parhau i gamddefnyddio cyffuriau.

Yn aml, bydd rhaglenni dynodedig yn cynnwys nifer o rannau gwahanol. Mae'n fwy tebygol y bydd unigolyn yn ymateb yn anghyflawn i raglenni dynodedig, neu y bydd yn llithro'n ôl, os na fydd ei raglen yn mynd i'r afael â'r ffactorau risg cefndirol y mae pob plentyn, person ifanc neu oedolyn ifanc yn eu hwynebu.

Dylai rhaglenni dynodedig cynhwysfawr gynnwys ymyriadau sydd wedi eu cyfeirio at gynorthwyo pobl iau gydag:

- effeithiau penodol neu uniongyrchol y sylweddau y maent yn eu camddefnyddio;
- lleihau ffactorau yn eu bywydau allai fod yn cynnal eu defnydd o sylweddau;
- datblygu eu gallu i wrthsefyll;
- anghenion gofal iechyd sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau; a
- bodloni anghenion sy'n deillio o'u camddefnydd o sylweddau neu effeithiau eilaidd o fod â ffordd o fyw y mae camddefnyddio sylweddau'n rhan ohoni (gan gynnwys ymwneud o bosibl â throseddu, tai gwael a digartrefedd, diweithdra a methiant yn yr ysgol).

Unwaith y bydd person wedi ei asesu fel un sydd ag angen am ymyriad rhaglenni dynodedig, efallai y bydd angen gwasanaethau asiantaeth arbenigol mewn trin camddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, gall ymateb cynhwysfawr olygu mwy

na dim ond asiantaethau arbenigol. Gall rhai o'r gwasanaethau sydd eu hangen gynnwys gweithgareddau a gynhwysir o fewn categori'r rhaglenni dewisol neu raglenni wedi'u targedu ond hefyd, gwasanaeth amrywiaeth o asiantaethau eraill nad ydynt yn eu hystyried eu hunain yn ymwneud yn uniongyrchol gyda defnyddio neu gamddefnyddio sylweddau (e.e. ysgolion, colegau, sefydliadau addysg uwch, cyflogwyr a gwasanaethau tai) wrth gyflwyno rhaglenni dynodedig sy'n fwy tebygol o fod yn effeithiol.

Dylai rhaglenni dynodedig fod ar gael i bob plentyn, person ifanc ac oedolyn ifanc yng Nghymru ar sail angen.

Dylai protocolau hefyd fod yn eu lle gyda gwasanaethau statudol eraill er mwyn sicrhau bod anghenion plant i gyd yn cael eu diwallu. *(Diogelu Plant: Gweithio gyda'n gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 Pennod 8.19)*

## 8.3 Ymyriadau arbenigol

Dylai amrediad eang o ymyriadau neu 'driniaethau' fod ar gael ar gyfer pobl iau sy'n camddefnyddio sylweddau ac ar gyfer eu teuluoedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- therapïau seicolegol a gynigir mewn lleoliadau un-i-un, grŵp neu deulu, yn dibynnu ar y cyngor a asesir (LINK)
- triniaethau ffarmacoleg sydd wedi eu targedu at y sylwedd a gamddefnyddir yn achos defnyddwyr dibynnol (gweler atodiad 3)
- triniaethau ffarmacoleg sydd wedi eu targedu at anhwylderau meddyliol cyd-forbid.

Mae'n hanfodol cynnwys a chadw pobl iau mewn ymyriadau o'r math a ddarperir gan asiantaethau arbenigol camddefnyddio sylweddau oherwydd bod hyd y driniaeth yn gysylltiedig â gwella'r canlyniad. Dylai ymyriad gynnwys asesu, cyfnodau trin (sut bynnag y'u diffinnir) a'r gofal dilynol a'r dilyniant wedyn. Mae cydweithio gydag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill yn rhan greiddiol o ymyriadau effeithiol ar gyfer pobl iau sy'n camddefnyddio sylweddau.

Gellid disgrifio cydrannau arbenigol gwasanaethau ymyriad fel:

- gwasanaethau cyn trin;
- gwasanaethau trin ac ymyriadau wedi eu seilio ar y gymuned-cleifion allanol;
- triniaeth cleifion mewnol; a
- gwasanaethau preswyl eraill.

### 8.3.1 Gwasanaethau cyn-triniaeth

Gall pobl ifanc sydd wedi eu hasesu â'r angen am wasanaethau asiantaeth arbenigol mewn triniaeth camddefnyddio sylweddau, fod angen y gwasanaethau a ddisgrifiwyd eisoes o dan benawdau rhaglenni cyffredinol a rhaglenni dewisol neu raglenni wedi'u targedu, yn ogystal ag asesiad llawn a mynediad at ymyriad arbenigol. Maent yn cynnwys:

- gwasanaethau ymyriad sylfaenol, hybu iechyd ac addysg gyffredinol; a
- gwasanaethau ymyriad cynnar a anelwyd at bobl iau sydd wedi defnyddio sylweddau ond ar lefel isel o ddifrifoldeb.

Gelwir yr agweddau hyn ar yr ymateb cynhwysfawr a ddarperir gan rai asiantaethau arbenigol ar drin camddefnyddio sylweddau yn Wasanaethau Cyn-triniaeth.

### 8.3.2 Gwasanaethau ymyriad a thriniaethau arbenigol yn y gymuned

Mae tair lefel dwyster i wasanaeth ymyriad arbenigol y dylid eu cynnig i bobl iau y tu allan i leoliad cleifion mewnol. Y rhain yw:

- darpariaeth cleifion allanol heb fod yn ddwys (fe'i diffinnir weithiau fel llai na 10 awr yr wythnos o fynychu asiantaeth);
- darpariaeth cleifion allanol ddwys (fe'i diffinnir weithiau fel 10 i 20 awr yr wythnos o fynychu gwasanaeth sy'n cynnig rhaglen strwythuredig); a
- ymyriad gwasanaeth dydd (y gellir ei ddiffinio fel mwy nag 20 awr yr wythnos o fynychu gwasanaeth sy'n cynnig rhaglen strwythuredig).

Bydd angen i wasanaethau arbenigol ddarparu'r ymyriadau canlynol:

- sgrinio/asesiadau arbenigol;
- grwpiau addysgol (e.e. ar effeithiau cyffuriau);
- gwasanaethau addysg;
- rhaglenni hunangymorth;
- rhaglenni rhwystro llithro nôl;
- profi am gyffuriau;
- dadwenwyno, lleihau sylweddau a thriniaethau cynnal;
- gwasanaethau iechyd meddwl;
- therapi grŵp, teulu ac unigol;
- gweithgareddau hamdden a rhaglenni cymdeithasu â chyfoedion;
- cyswllt â gwasanaethau iechyd rhyw arbenigol;
- ymyriadau grŵp arbenigol eraill (e.e. sensitifrwydd diwylliannol; HIV, beichiogrwydd a rhianta; rhoi'r gorau i dybaco; sgiliau byw'n annibynnol; iechyd a maethiad ayyb);
- gwasanaethau brys a thu allan i oriau;
- gwasanaethau cartref, gwasanaethau allgymorth, gwasanaethau cyswllt;
- gweithwyr cyswllt camddefnyddio sylweddau sydd â'r rôl o ddarparu cyngor, cyfeirio, hyfforddi, ymgynghori a chydweithio gydag asiantaethau eraill ac ar gyfer yr asiantaethau rheiny sy'n darparu swyddogaethau gwasanaeth eraill;
- Lleihau Niwed e.e. cyfnewid nodwyddau (Gweler atodiad 4).

### 8.3.3 Gwasanaethau i gleifion mewnol

Mae nifer gryn dipyn yn llai o bobl iau yn debygol o fod angen gwasanaethau cleifion mewnol.

Mae'n rhaid i'r gwasanaethau hyn ddiffinio ffactorau llwyddiant canlyniadau yn eglur.

Nodir tair lefel o ddarpariaeth ar gyfer pobl iau sydd angen gwasanaethau preswyl:

- gwasanaethau sy'n cael eu monitro'n feddygol - ar gyfer y bobl ifanc rheiny sydd ag anhwylder camddefnyddio sylweddau difrifol ac sydd angen goruchwyliaeth a monitro 24 awr y dydd fel arfer dros arhosiad o 7 i 45 diwrnod);
- gwasanaethau a reolir yn feddygol - sy'n cynnig gwasanaethau meddygol a nyrsio ddydd a nos (e.e. drwy ddarparu cynnal bywyd neu wasanaethau diogel fel arfer dros gyfnod o 7 i 45 diwrnod ar gyfer pob person iau); a
- gofal preswyl dwys dan gyfarwyddyd meddygol - ar gyfer pobl iau sydd â phroblemau cymhleth gan gynnwys cyd-forbidrwydd (gall fod hyd at 6 mis ym mhob achos).

Dylai'r amrediad o ymyriadau a gynigir mewn lleoliadau preswyl fod yr un fath â'r rhai a gynigir mewn gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau dydd gyda rhagor o bwyslais ar wasanaethau galwedigaethol.

Mae'n bwysig tynnu sylw at Gylchlythyr Iechyd Cymru (2002) 125 sy'n nodi polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar amrediad oedran cleifion gaiff eu trin gan CAMHS. Amcan tymor hir Llywodraeth Cynulliad Cymru yw na ddylai unrhyw blentyn neu berson ifanc gael ei drin mewn cyfleuster ar gyfer oedolion.

Mae gweithred allweddol NSF 2.8 yn nodi. 'Pan fydd plentyn neu berson ifanc angen eu derbyn i'r ysbyty neu leoliad preswyl, naill ai tu mewn neu'r tu allan i'r sir:

- Cânt eu gosod mewn lleoliadau sydd fwyaf priodol ar gyfer eu datblygiad yn ogystal â'u hanghenion clinigol;
- Cânt eu derbyn i leoliadau oedolion mewn amgylchiadau eithriadol yn unig;
- Pan gânt eu rhoi mewn lleoliadau oedolion, bod systemau mewn lle er mwyn eu gwarchod rhag niwed."

### 8.3.4 Gwasanaethau preswyl

Mae'r amrediad o wasanaethau preswyl posibl yn cynnwys:

- cymunedau therapiwtig ar gyfer ailsefydlu seicogymdeithasol (gall fod am hyd at 6 mis);
- tai hanner ffordd;
- cartrefi grŵp; a
- gofal maethu arbenigol.

Prin yw'r darparwyr gwasanaethau arbenigol sy'n gallu cynnig amrediad llawn.

Fodd bynnag, mae mynediad at wasanaethau o'r mathau hyn yn debygol o fod angen dull cenedlaethol o gynllunio a dylai gynnwys y gallu a'r cymhwysedd i drefnu derbyn i'r cyfleusterau hyn os oes angen a phan fydd angen.

*DS Gall lleoliadau cleifion mewnol a lleoliadau preswyl fod yn fwy addas ar gyfer pobl iau sydd:*

- *ag anhwylderau mwy difrifol yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau gyda phroblemau cyd-forbidrwydd sylweddol;*

- *mewn perygl o symptomau ymwrthod sylweddol; a/neu*
- *wedi methu ymateb i ymyriadau dwys wedi eu seilio yn y gymuned neu ymyriadau dydd.)*

## 8.4 Trefnu gwasanaethau ymyriad arbenigol cynhwysfawr

Yn gyffredinol, y mae dau fodel posibl wrth gyflwyno gwasanaethau ymyriad arbenigol cynhwysfawr sydd mor eang â hyn:

- creu asiantaethau sengl neu ddod ag asiantaethau unigol at ei gilydd er mwyn iddynt weithredu fel un corff;
- creu rhwydwaith o asiantaethau nad ydynt yn perthyn mor glòs.

Yn yr achos cyntaf, er enghraifft, gallai gwasanaeth arbenigol a ariennir gan y GIG uno gydag asiantaeth o'r sector gwirfoddol er mwyn darparu rhaglenni dynodedig yn ogystal ag amrediad llawn o raglenni dewisol neu raglenni wedi'u targedu.

Yn y naill achos neu'r llall, mae angen cael rhwydweithiau o berthnasau gyda sawl asiantaeth arall o'r sector statudol a'r sector gwirfoddol er mwyn creu cyfleoedd ar gyfer cynllunio a chyflwyno pecynnau asesu eang, unigol, ar-sail-angen, cynhwysfawr ac wedi eu cydlynu'n dda mewn asesu, ymyriad, triniaeth a gofal.

Felly, darperir Haen 3 gan dimau amlddisgyblaethol o staff sydd wedi eu hyfforddi'n benodol ac sydd â'r sgiliau i weithio gyda phobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau a/neu sy'n arddangos syndromau camddefnyddio sylweddau.
Mae gwaith ar y lefel hon yn gofyn am gydweithrediad rhwng iechyd meddwl plant a'r glasoed, caethiwed, addysg, paediatreg, gwasanaethau sector cymdeithasol a gwirfoddol ac mae sawl posibilrwydd sefydliadol.

Mae dulliau o sicrhau cyfuno'r wybodaeth a'r sgiliau hyn yn cynnwys:

- creu timau newydd o fewn asiantaeth unigol naill ai drwy ddod ag elfennau o sawl asiantaeth ynghyd neu drwy secondio staff;
- tynnu ar amrywiaeth o asiantaethau er mwyn casglu'r sgiliau priodol o gylch pobl ifanc penodol a'r problemau a wynebir ar sail anghenion a rheoli achos (h.y. defnyddir rheoli achos a rheoli gofal ar gyfer cyflwyno cynlluniau gweithredu neu gynlluniau gofal traws asiantaeth yn ogystal â bod yn fodd o ddod ag asiantaethau ynghyd ar y lefelau strategol a gweithredol);
- creu rhwydweithiau gwasanaeth neu dimau ymarferol. Gyda'i gilydd, dylai'r timau, boed o fewn asiantaeth unigol a ddarperir gan sawl asiantaeth yn gweithio gyda'i gilydd neu drwy gyfrwng timau ymarferol, allu asesu a rheoli anghenion cymhleth y bobl iau sydd â phroblemau ac anhwylderau mwy difrifol.

Dylai staff y gwasanaethau sy'n darparu swyddogaethau arbenigol Haen 3 fod ar gael i gynghori staff sy'n cyflwyno swyddogaethau Haen 2. Dylai staff sy'n cyflwyno gweithgareddau sy'n rhan o Haen 3 fod yn ymwybodol o asiantaethau lleol amrywiol ac o'r llwybrau sy'n cyfeirio atynt.

## 8.5 Materion allweddol ar gyfer darparu gwasanaeth

### 8.5.1 Asiantaeth arweiniol a gweithiwr proffesiynol arweiniol

Mae integreiddio a chydlynu yn golygu bod angen i'r asiantaethau danysgrifio i fodelau cytunedig o ofalu a/neu rheoli achos, yn enwedig pan fydd angen cynllunio rhwng asiantaethau. Mae'r fframwaith hwn yn gweithredu ar y cysyniad, pan fydd mwy nag un asiantaeth yn chwarae rhan, y dylent gytuno ymysg ei gilydd pwy yw'r asiantaeth arweiniol ym mhob achos gan fod hyn yn hybu eglurder ar gyfer cleientiaid a theuluoedd. Pan fydd Gwasanaethau Cymdeithasol yn chwarae rhan oherwydd i'r plentyn gael ei nodi fel 'plentyn mewn angen', ar y gofrestr gofal, yn derbyn gofal neu wedi gadael gofal, bydd Gwasanaethau Plant yn cydlynu'r achos.

Yn ychwanegol at hyn, daw'r cysyniad o weithiwr proffesiynol arweiniol. Dyma'r person o'r asiantaeth arweiniol sy'n gyfrifol am reoli pob achos a chydlynu cyflwyno'r gofal sydd ei angen ar bob person unigol. Dylai asiantaethau lleol ddod at ei gilydd er mwyn cytuno ar beirianweithiau gofal neu reoli achos.

### 8.5.2 Integreiddio gwasanaethau

Gwasanaethau integredig ar gyfer plant ac oedolion ifanc yw'r rhai sy'n cydweithio ac sydd wedi eu cydlynu'n dda o fewn ac ar draws asiantaethau. Ni ddylid caniatáu i derfynau rhwng adrannau, o fewn gwasanaethau ac asiantaethau, a rhwng asiantaethau ddod yn llinellau ffawt ym mhrofiadau pobl iau a'u teuluoedd.

Mae arfer da mewn integreiddio yn awgrymu y dylai gwasanaethau fod wedi eu:

- seilio ar gynlluniau tymor hirach ac ar berthnasau cynaliadwy rhwng asiantaethau;
- ystyried o safbwynt eu defnyddwyr;
- comisiynu gan yr awdurdodau sy'n gyfrifol ar sail gydlynol er mwyn osgoi ailadrodd a bylchau;
- seilio ar ymwybyddiaeth o angen nifer o bobl iau am gael ymdrin â'u hanghenion gan sawl asiantaeth wahanol ar yr un pryd neu'n ddilynol, yn ôl cynlluniau, amserlenni a dosbarthu cyfrifoldeb cytunedig rhwng yr asiantaethau a'r sectorau gofal; a'u
- cysylltu gan gyfathrebu, cynllunio gofal ac achos, a phrotocolau rhannu gwybodaeth sydd wedi eu seilio ar ddulliau llai ffurfiol o annog cysylltiadau a pherthynas broffesiynol rhwng staff.

### 8.5.3 Swyddogaeth cyswllt camddefnyddio sylweddau *(Gweithwyr cyswllt)*

Un dull o wella'r cysylltiad rhwng y gwasanaethau arbenigol a'r gwasanaethau cyffredinol yw creu gweithwyr cyswllt camddefnyddio sylweddau. Dylai'r staff yma feddu ar lefel uchel o sgiliau a phrofiad a bod yn aelodau o Wasanaeth Arbenigol ar Gamddefnyddio Sylweddau. Er y gallant gyflawni'r rhan fwyaf o'u gwaith heb fod ar y safle a'r tu allan i safle ffisegol gwasanaeth arbenigol, y maen nhw'n arbenigwyr.

Mae eu rôl yn debygol o gynnwys:

- darparu cyngor i staff sy'n cyflwyno swyddogaethau Haen 1 a 2;
- cynghori ar gynnwys y rhaglenni addysg cyffredinol a'r rhaglenni addysg dewisol a'r rhaglenni addysg a dargedir;

- darparu cyngor ar weithredu'r llwybr gofal;
- darparu cyngor ar gyfer cynllunwyr ynglŷn â sylweddau a'r gwasanaethau sydd eu hangen;
- darparu ymgynghoriad ar gyfer staff sy'n cyflwyno swyddogaethau Haen 1 a 2;
- darparu dysgu a hyfforddiant ar gyfer y staff sy'n cyflwyno swyddogaethau Haen 1 a 2;
- cysylltu ar draws yr asiantaethau mewn ardal er mwyn cynorthwyo gyda datrys problemau cyfathrebu;
- gweithredu fel gweithiwr proffesiynol arweiniol ar gyfer rhai pobl iau penodol sydd â phroblemau cymhleth ac sydd angen rhaglenni gofal a gydlynwyd yn dda.

### 8.5.4 Cynnwys rhieni a gofalwyr

Mae cynnwys rhieni a gofalwyr mewn gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr sylweddau iau ac ennyn eu cefnogaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau bod negeseuon cydlynol a chyson yn cael eu cyfleu. Teuluoedd yw'r dylanwadau sylfaenol ac mae eu cael i chwarae rhan weithgar yn debygol o wella canlyniad y driniaeth y gall y gwasanaeth ei chyflawni.

Felly, dylai gwasanaethau weithio mewn partneriaeth gyda phobl iau ac, os yw'n addas o ran oed ac amgylchiadau, gyda'u rhieni, gofalwyr ac aelodau eraill o deulu agos er mwyn mynd i'r afael â phroblemau'n ymwneud â sylweddau ac er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer y bobl ifanc, yn ogystal ag ar gyfer eu teuluoedd a'u ffrindiau.

Mae'r rhan fwyaf o rieni a gofalwyr am fod yn rhan o benderfyniadau a wneir ynglŷn ag ymyriadau a thriniaethau y mae eu plant yn eu derbyn. Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod y rôl werthfawr y gall rhieni/gofalwyr ei chwarae wrth gynorthwyo pobl iau sydd â phroblemau yn deillio o gamddefnyddio sylweddau. Dylai gwasanaethau fynd ati i annog cynnwys rhieni o fewn terfynau polisi a deddfau presennol a chyfraith achos ar ganiatâd a chyfrinachedd. Gallai fod amgylchiadau hefyd pan fydd caniatâd rhieni'n orfodol.

Tra dylai gweithwyr proffesiynol geisio, yn gyffredinol, drafod unrhyw bryderon gyda'r teulu, a lle bo'n bosibl, ceisio eu cytundeb er mwyn cyfeirio at wasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol, dylid gwneud hyn ddim ond pan na fydd trafodaeth a cheisio cytundeb o'r fath yn peri i'r plentyn fod mewn mwy o berygl o niwed sylweddol.

### 8.5.5 Ymdrin â chyfnodau pontio

Dylid darparu gwasanaeth ar sail angen ac nid ar sail meini prawf oedran. Felly, os oes gan berson 18 oed neu hŷn anghenion y gall gwasanaeth person iau eu bodloni orau, yna mae'n debyg mai dyma'r ymateb mwyaf addas cyn belled nad yw'r gweithredu hwn yn amharu ar y gwasanaeth a gynigir i gleientiaid eraill. Gall yr un peth fod yn wir am bobl ifanc o dan 18 oed sydd angen gwasanaeth a gynigir orau gan wasanaeth ar gyfer oedolion. Dylai cynllunwyr, felly ganiatáu hyblygrwydd wrth ystyried trefniadau pontio er y dylent fod yn ymwybodol o anghenion

rheoleiddio sy'n ymwneud â phlant ac unrhyw wasanaethau y mae angen cofrestru ar eu cyfer o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000.

Dylid ystyried y pwyntiau canlynol hefyd:

- seilir yr elfen o ymyriad ar faes y person ifanc o fewn y fframwaith hwn ar y gobaith y bydd ymyriad cynnar yn lleihau'r angen i bobl ifanc ddefnyddio gwasanaethau pan fyddant yn oedolion;
- dylai pob person ifanc sy'n derbyn gofal asesiad, a/neu ymyriadau ar gyfer camddefnyddio posibl ar sylweddau neu gamddefnyddio sy'n digwydd ar y pryd, gael cynllun gofal pontio sydd wedi ei lunio cyn eu pen-blwydd yn ddeunaw oed. Dylai hwn nodi unrhyw anghenion parhaus a'r sefydliadau all fodloni'r anghenion hynny orau a chynnwys anghenion sy'n deillio o gamddefnyddio sylweddau;
- er mwyn cynllunio trefniadau pontio, dylai darparwyr gwasanaethau ar gyfer oedolion ac ar gyfer pobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau weithio gyda'i gilydd a chyda'r darparwyr gwasanaeth eraill sy'n chwarae rhan;
- gallai gweithwyr allweddol camddefnyddio sylweddau sydd â chyfrifoldebau pontio fod wedi eu lleoli mewn gwasanaethau ar gyfer oedolion, ond eu bod yn cynnig rhai sesiynau mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer pobl ifanc;
- dylid dynodi cydlynydd gofal, yr ydym yn ei alw'n weithiwr proffesiynol arweiniol, yn y cynllun gofal oddi fewn i'r brif asiantaeth sef y Gwasanaethau Cymdeithasol os yw'r plentyn yn derbyn gwasanaethau gan adrannau'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mewn sawl achos, gall pobl ifanc 18 oed sydd angen gwasanaethau oherwydd eu camddefnydd o sylweddau fod angen ymyriadau gan wasanaethau eraill o'r prif lif hefyd, megis tai, addysg a gofal sylfaenol; a
- gall pontio pobl ifanc i wasanaethau ar gyfer oedolion ddigwydd ar wahanol oedrannau neu gyfnodau datblygu yn dibynnu ar yr asiantaethau sydd ynghlwm â hynny a'r disgwyliadau sydd arnynt (e.e. gall fod gan Dimau Troseddwyr Ifanc, CAMHS Arbenigol a gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal drefniadau gwahanol i'w gilydd). Dylai trefniadau pontio sicrhau bod y trefniadau amrywiol hyn yn cael eu cynnwys yn y cynllun gofal, pan fyddant yn berthnasol.

### 8.5.6 Rhith dimau a thimau ymarferol

Gall asiantaethau a thimau o'u mewn amrywio mewn strwythur a llywodraethu. Gellid llwyddo i gydlynu ac integreiddio gwasanaethau'n well drwy newidiadau strwythurol i adeiladwaith timau. Fel arall, gallai secondio ar draws asiantaethau ddarparu peirianwaith er mwyn dod ag arbenigedd penodol i wasanaethau presennol er mwyn adeiladu timau camddefnyddio sylweddau amlddisgyblaethol sy'n gallu darparu gwasanaethau mewn ardal.

Dewis arall yw datblygu timau neu sefydliadau rhithwir ble bydd gweithwyr proffesiynol o amrywiaeth o asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd, yn aml, mewn rhwydweithiau er mwyn darparu rhaglenni gofal ar gyfer unigolion penodol. Gall secondio neu dimau rhithwir fod yn arbennig o ddefnyddiol ac yn beirianweithiau ar gyfer y dyfodol gan arwain at:

- ganiatáu mynediad at wasanaethau camddefnyddio cyffuriau mewn lleoliadau prif lif neu rai generig;
- manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu cymwyseddau mewn materion yn ymwneud â sylweddau ar gyfer ymarferwyr generig sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion ifanc;
- datblygu'r swyddogaethau a gynigir gan asiantaethau generig neu rai prif lif; a
- datblygu perthnasau gwaith integredig gwell a nes rhwng disgyblaethau ac asiantaethau er mwyn lleihau cystadleuaeth ac ailadrodd proffesiynol.

### 8.5.7 Amddiffyn plant

Mae ymateb yn addas i bryderon gwirioneddol a phryderon posibl ynglŷn ag amddiffyn plant yn hanfodol, waeth pa mor heriol a phroblemus yw hi i'w weithredu mewn rhai achosion. Felly, mae'n hanfodol bod gwasanaethau camddefnyddio sylweddau'n parhau i gydweithredu'n dda gyda gwasanaethau cymdeithasol. Weithiau, ni ystyrir bod anghenion pobl sy'n mynychu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn ddigonol o'u cymharu â'r problemau a wynebir gan bobl ifanc eraill y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn dod ar eu traws. Mae gwasanaethau amddiffyn plant effeithiol yn arbennig o bwysig ar gyfer defnyddwyr sylweddau ifanc sy'n feichiog a gall fod yna nifer o ferched ifanc yn y sefyllfa hon mewn rhai ardaloedd.

# Adran D - cynllunio

## 9. Diben yr adran

**Mae'r adran hon yn disgrifio fframwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer trefnu'r gwaith o gynllunio Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc sy'n Defnyddio neu'n Camddefnyddio Sylweddau ledled Cymru.**

Sylweddolir bod angen cydweithrediad agos rhwng cynllunwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar y partneriaethau cynllunio i gynnal a datblygu'r patrwm cynhwysfawr o wasanaethau camddefnyddio sylweddau sydd eu hangen ar bobl ifanc. Mae angen eglurder ar y cynllunwyr hyn ynghylch sut y mae cyfrifoldebau am gynllunio gwasanaethau i'w dyrannu rhwng yr amrywiol sectorau a fframwaith y gall awdurdodau cynllunio ddod at ei gilydd o'i fewn i gytuno ar gynlluniau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae'r adran hon yn awgrymu dod â'r cyrff cynllunio at ei gilydd mewn partneriaethau ac mae'n defnyddio'r Fframwaith Strategol Pedair Haen fel dull o ddisgrifio hyn.

## 10. Cefndir

**Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid gydweithredu wrth gynllunio gwasanaethau er mwyn cyflenwi'r patrwm o wasanaethau sy'n gweithredu'r blaenoriaethau cytunedig a ddisgrifir yn y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CPPI) lleol.**

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn awyddus i weld mwy o ddefnydd o gynllunio ar y cyd er mwyn darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Mae Adran 25(6) o Ddeddf 2004 yn rhoi'r pŵer i'r awdurdod lleol a'i brif bartneriaid statudol gyfuno cyllid a rhannu adnoddau. Mae Pennod 4 y canllawiau ar ddyletswyddau lleol i gydweithredu - *Partneriaethau Cryfach i Wella Canlyniadau (LlCC 2006)* - yn nodi'r cefndir ar gyfer datblygu trefniadau o'r fath. Mae pob CPPI yn darparu sylfaen ar gyfer cynllunio ar y cyd yn lleol. Mae *Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau (LlCC 2007)*, yn atgyfnerthu'r gofyniad i ystyried cyfleoedd ar gyfer defnyddio cyllid wedi'i gyfuno (paragraffau 2.24-2.26). Gall cyllid wedi'i gyfuno fod yn arbennig o werthfawr wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth ac sydd angen pecynnau o ofal oddi wrth nifer o asiantaethau a phartneriaid, megis gwasanaethau camddefnyddio sylweddau.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi "Canllawiau Fframwaith i Gomisiynu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol" sy'n pwysleisio pwysigrwydd dulliau gweithredu cyflenwol, sef:

- agwedd strategol a systematig at gynllunio gwasanaethau;
- hyrwyddo dull gweithredu ar y cyd wrth gynllunio gwasanaethau rhwng asiantaethau o fewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol;
- cynllunio ar y cyd ar draws ffiniau Partneriaethau Diogelwch Cymunedol.

Yn ôl Deddf Diwygio'r Heddlu 2002, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2003 yng Nghymru, mae'n ofynnol i awdurdodau cyfrifol yng Nghymru sicrhau bod Cynllun Gweithredu Lleol ar Gamddefnyddio Sylweddau yn cael ei ddatblygu a'i weithredu. Cyngor yr ardal, prif swyddogion yr heddlu, awdurdod yr heddlu, yr awdurdod tân ac achub a'r bwrdd iechyd lleol yw'r awdurdodau cyfrifol. Wrth benderfynu beth i'w gynnwys yn eu Cynlluniau Gweithredu Lleol ar Gamddefnyddio Sylweddau, dylai awdurdodau cyfrifol weithio mewn partneriaeth ag aelodau eraill o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

Dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol sicrhau bod eu cynlluniau yn adlewyrchu ac yn hysbysu'r CPPI lleol. Wrth i'w haelodau gymryd rhan yn y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc ar gyfer yr ardal, bydd Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn cyfrannu at bennu blaenoriaethau a rennir a byddant yn gallu sicrhau bod eu gwaith i gomisiynu gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yn seiliedig arnynt. Mae'n hanfodol bod y ddwy bartneriaeth yn cydweithredu wrth gynllunio gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ar gyfer plant a phobl ifanc - gweler *Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau*, paragraffau 1.27 ac 1.28.


# 11. Y model cynllunio a awgrymir

O ran plant a phobl ifanc yn benodol, mae rhai gwasanaethau fel addysg gyffredinol, gwybodaeth, hybu iechyd a gwasanaethau sgrinio ac asesu cychwynnol (yn Haen 1) sydd eu hangen ar bobl ifanc i gyd ond mae angen y cyfuniadau mwyaf arbenigol o wasanaethau (yn Haen 4) ar nifer lai o lawer o bobl. Mae nifer canolig o bobl ifanc angen mynediad at swyddogaethau'r gwasanaeth arbenigol yn Haen 3.

Felly, mae angen i swyddogaethau Haen 1 (a llawer o swyddogaethau Haen 2) fod yn hygyrch ym mhob cymuned. Mae swyddogaethau Haen 4 o'r fath fel ei bod yn debygol y bydd angen i bobl sydd â gwybodaeth arbenigol iawn eu cynllunio. Rhyngddynt ceir swyddogaethau arbenigol Haen 3 sydd angen gwybodaeth arbenigol hefyd.

Felly, mae'r fframwaith hwn yn cynnig fframwaith haenog ar gyfer trefnu cynllunio ar gyfer y cleientiaid hyn yng Nghymru. Mae Ffigur 7.1 yn crynhoi'r dull gweithredu hwn.

**Ffigur 7.1: Fframwaith ar gyfer cynllunio**



Mae'r model hwn yn darparu fframwaith ar gyfer trefnu a dyrannu cyfrifoldebau am cynllunio gwasanaethau sy'n golygu ei bod yn ofynnol i'r awdurdodau cyfrifol unigol o'r sectorau i gyd ddod at ei gilydd mewn grwpiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Trwy weithredu fel hyn, credir y gellir datblygu arbenigedd ar draws y sectorau er mwyn gallu cynllunio'r gwasanaethau cynyddol arbenigol a chymhleth yn Haenau 3 a 4 yn effeithiol. Ceir mwy o fanylion am y dull gweithredu hwn isod.

## 11.1 Cynllunio Haen 1

Dylid trefnu a chynnal y gwaith o gynllunio swyddogaethau Haen 1 ar lefel Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Ar hyn o bryd daw'r cynllunwyr hyn at ei gilydd mewn gwahanol bartneriaethau. Bydd angen cydweithredu rhwng Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Phartneriaethau Fframwaith Plant a Phobl Ifanc ym mhob ardal er mwyn cynllunio gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc. Dewis posibl ar gyfer cydweithredu fyddai Partneriaeth Cynllunio Cydweithredol Cymunedol lle mae pob un o'r cynllunwyr sydd â chyfrifoldeb statudol yn cytuno i rannu'r gwaith o ddatblygu a chyflenwi cynllun ar y cyd ar gyfer Haen 1 ac yna i chwarae'r rhan a gytunwyd ganddo wrth gynllunio'r gwasanaethau sy'n perthyn i'w sector.

## 11.2 Cynllunio Haenau 2 a 3

Er mwyn **cynllunio** swyddogaethau Haenau 2 a 3 yn effeithiol mae'n rhaid i ardaloedd gyfuno arbenigedd a chydweithio'n agos. Yng Nghymru mae modelau yn datblygu ar gyfer cynllunio gwasanaethau yn rhanbarthol. Un enghraifft yw cynllunio'r Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau ar sail ardaloedd awdurdod heddlu ac enghraifft arall yw system ranbarthol newydd y Rhwydwaith Comisiynu CAMHS.

Gallai awdurdodau cyfrifol hefyd ddod at ei gilydd i greu grwpiau cynllunio rhanbarthol lle mae cynrychiolwyr o bob un o'r cynllunwyr lleol neu'r partneriaethau cynllunio cyfunol yn cael eu dwyn ynghyd o dan arweinyddiaeth un corff cynllunio a allai wedyn cael ei adnabod fel yr arweinydd ar gyfer y rhanbarth. Gallai'r rhai sy'n cymryd rhan gyfuno cyllidebau ac adnoddau staff a chyflogi staff ar y cyd sy'n gallu datblygu gwybodaeth ac arbenigedd digonol i gynllunio swyddogaethau Haenau 2 a 3 yn effeithiol yn eu rhanbarth.

## 11.3 Cynllunio Haen 4

Efallai y byddai'n well cynllunio'r gwasanaethau sydd eu hangen i gyflenwi swyddogaethau Haen 4 ar lefel Cymru gyfan. Gallai'r prif bersonél o bob un o'r grwpiau cynllunio rhanbarthol ddod ynghyd i greu consortiwm cynllunio cenedlaethol a allai fod yn gyfrifol am gynllunio a rheoli perfformiad asiantaethau sy'n darparu'r swyddogaethau Haen 4 sydd eu hangen ar holl bobl ifanc Cymru.

Sylweddolir bod yr amrywiol sectorau wedi mabwysiadu gwahanol ddulliau neu fodelau cynllunio. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, fodd bynnag, wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol (Canllawiau Fframwaith i Gynllunio Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol) a dylid ystyried y canllawiau hyn wrth gynllunio gwasanaethau.

# 12. Arfer da wrth gynllunio

Ym 1996, cyhoeddodd Gwasanaethau Ymgynghorol Iechyd a Chyffuriau (HAS) y GIG adolygiad thematig ar gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n defnyddio ac yn camddefnyddio sylweddau[1]. Yn 2001, adolygodd y Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd, corff olynol i'r HAS, yr adolygiad HAS ar gais Swyddfa'r Cabinet. Mae'r adroddiad HAS cyntaf yn cynnwys adran sylweddol ar gynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n defnyddio neu'n camddefnyddio sylweddau. Cadarnhawyd cynnwys yr adran honno yn adolygiad 2001. Mae egwyddorion arferion da wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n defnyddio neu'n camddefnyddio sylweddau yn parhau'n ddigyfnewid. Ceir crynodeb ohonynt, gyda diweddariad, isod.

## 12.1 Strategaeth

Mae'n hanfodol fod asiantaethau sy'n gyfrifol am gynllunio gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yn seilio eu dull gweithredu ar ddull strategol a gytunwyd rhyngddynt sy'n seiliedig ar y CPPI lleol. Dylent:

- Adeiladu, pryd bynnag y bo modd, ar beirianwaith presennol a'r strategaeth flaenorol;
- Gwneud eu cynlluniau strategol yn gydnaws â'u strategaethau ehangach ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed fel ei gilydd, yn ogystal â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i oedolion;
- Cynnwys cydbwysedd o ddulliau addysgol, ataliol ac ymyriad a thriniaeth yn eu fframwaith strategol;
- Sicrhau bod eu cynlluniau strategol wedi'u cytuno ac yn eiddo i'r holl asiantaethau posibl sydd â chyfrifoldebau cynllunio, gan gydnabod trwy hynny eu rhyngddibyniaeth wrth gynhyrchu system effeithiol o wasanaethau; a
- Nodi a blaenoriaethu'r grwpiau risg uchel yn eu cynlluniau (ee defnyddwyr cyffuriau mewnwythiennol, defnyddwyr cyffuriau sy'n feichiog a defnyddwyr â risg uchel o hunanladdiad).

## 12.2 Datblygu'r sylfaen wybodaeth

Rhaid i gynllunwyr gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau ar gyfer plant a phobl ifanc fod â gwybodaeth gadarn am ofynion plant, pobl ifanc ac oedolion ifanc sydd â phroblemau yn deillio o'u defnydd neu eu camddefnydd o sylweddau ac effeithiolrwydd ymyriadau posibl.

Mae'r wybodaeth sydd ei hangen i ddatblygu sylfaen wybodaeth gadarn o'r fath yn perthyn i sawl categori gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys: y diffiniadau cytunedig o ddefnyddio a chamddefnyddio a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru; natur a graddau camddefnyddio sylweddau yn eu hardal; natur, galluoedd a chynhwysedd darparwyr gwasanaethau anstatudol a statudol yn eu hardal; ac effeithiolrwydd gwasanaethau lleol. Mae asesu anghenion a mapio'r ddarpariaeth gyfredol ar y cyd yn hanfodol fel sail i gynllunio ar y cyd

[1] The Substance of Young Needs, 1996, Llyfrfa Ei Mawrhydi.

a dylid gwneud hyn fel rhan o'r broses integredig a ddilynir gan y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wrth iddi baratoi ei Chynllun Plant a Phobl Ifanc. Ategir y broses trwy:

- Ymgynghori ag asiantaethau cyffuriau ac alcohol anstatudol ynghylch nifer eu cleientiaid, eu patrymau defnydd a chamddefnydd, a natur y gwasanaethau a gynigiant;
- Ymgysylltu â'r gwasanaethau sy'n ymwneud â lleihau ysmygu;
- Gwybodaeth a gesglir o ysgolion, adrannau gwasanaethau cymdeithasol; gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, Timau Troseddau Ieuenctid, y gwasanaeth prawf a'r heddlu;
- Ymgynghori â mudiadau cymunedol, yn cynnwys unrhyw rai sy'n gweithio gyda gwahanol gymunedau ethnig;
- Deall yr amrywiol ddiffiniadau o ddefnydd a chamddefnydd a fabwysiedir gan asiantaethau lleol gan sylweddoli eu bod yn wahanol i ddiffiniadau Llywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn amcangyfrif y ffyrdd y mae'r diffiniadau hyn yn effeithio ar brosesau asesu anghenion a'u canfyddiad o bobl sydd angen gwasanaethau;
- Ymwybyddiaeth o effeithiolrwydd clinigol a chymdeithasol gwasanaethau penodol a dulliau addysg, atal ac ymyrryd sydd ar gael yn lleol yn ogystal â thrwy'r wlad; ac
- Adolygu llenyddiaeth sefydliadau megis Alcohol Concern a'r Gynhadledd Sefydlog ar Gamddefnyddio Cyffuriau (SCODA) a sefydliadau academaidd sydd â diddordeb yn y meysydd pwnc.

## 12.3 Ymateb i'r boblogaeth leol

Dylai cynllunwyr ymateb i anghenion eu poblogaeth leol er mwyn datblygu hinsawdd effeithiol wrth ddatblygu eu cynlluniau a'u gwasanaethau. Dylent fod yn ymwybodol o'r pwyntiau allweddol a ganlyn:

- Efallai fod llinell sylfaen dealltwriaeth ac empathi cyhoeddus yn isel yn y maes hwn; gall Cynllunwyr ddewis buddsoddi mewn mentrau addysgu'r cyhoedd mewn ymateb i hyn;
- Efallai fod gwahaniaeth barn rhwng pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanynt a rhaid cydnabod pob llais;
- Dylid cwrdd ag anghenion gofalwyr (rhieni fel arfer) yn ogystal â rhai eu plant;
- Mae swyddogaeth y cyfryngau yn y maes hwn yn arwyddocaol; gall eu cyfraniad fod yn negyddol drwy bardduo unigolion, sefydliadau, ysgolion neu ardaloedd, er enghraifft; neu gall fod o gymorth i addysgu'r cyhoedd;
- Mae creu cysylltiadau â gwahanol grwpiau ethnig yn hanfodol wrth weithio tuag at greu perthynas llawn ymddiriedaeth gydag arweinwyr cydnabyddedig y gwahanol grwpiau diwylliannol a rhaid i gynllunwyr fod yn ymwybodol o beryglon creu stereoteipiau hiliol neu ddiwylliannol; ac
- Efallai y bydd y boblogaeth o bobl ifanc a all elwa ar wasanaethau fod yn un sy'n mynd a dod, yn enwedig yng nghanol dinasoedd, ac efallai y bydd angen cydgysylltu ar draws ffiniau daearyddol ar bobl uchel eu risg, os yw gwasanaethau i gael eu targedu'n effeithiol ar bobl ifanc agored iawn i niwed.

## 12.4 Partneriaethau â darparwyr gwasanaethau

Mae datblygu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sydd â phroblemau yn deillio o'u defnydd neu gamddefnydd o sylweddau yn dibynnu ar aeddfedrwydd y berthynas rhwng y gwahanol gynllunwyr a rhwng y cynllunwyr a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau. Mae'r materion canlynol yn arwyddocaol yn y broses hon:

- Mae amrywiaeth eang o ddarparwyr yn y maes hwn a gall hyn arwain at wasanaethau unigol â chysylltiadau â'r un unigolion, pa un ai a ydynt yn ymwybodol o hynny ai peidio.
- Mae llawer o wasanaethau y gall pobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau droi atynt mewn argyfwng neu am ofal mwy arferol. Rhaid cymryd camau i sicrhau nad yw cysylltiadau gwael rhwng gwasanaethau neu'r ffaith nad yw gweithwyr proffesiynol yn gyfarwydd â chamddefnyddio sylweddau yn bygwth gofal unigolion nac yn gostwng safon gwasanaeth.
- Mae llawer o ddarparwyr yn y sector anstatudol. Mae diwylliant sefydliadol yr asiantaethau hyn yn wahanol i rai'r sector statudol. Rhaid i gynllunwyr ddeall y gwahaniaethau hyn er mwyn cynyddu cyfraniad y sector gwirfoddol i'r eithaf.
- Mae'n debyg fod gwahanol asiantaethau darparu yn cynnig gwahanol elfennau o'r gwasanaethau y mae pobl ifanc sy'n defnyddio neu'n camddefnyddio sylweddau eu hangen. Dylai cynllunwyr gymryd yr awenau trwy greu hinsawdd lle mae pob darparwr yn gweithredu gyda'i gilydd er budd pobl ifanc, trwy gydgysylltu eu cyfraniadau'n effeithiol i greu gwasanaeth cynhwysfawr.
- Mae perthynas effeithiol rhwng sefydliadau yn arwain at rannu gwybodaeth yn briodol. Ni ddylai darparwyr gwasanaethau gael eu llethu gan geisiadau am wybodaeth nad ydynt, o bosibl, yn gallu gweld pam eu bod yn berthnasol.

## 12.5 Cydweithredu effeithiol

Gall y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc leol gefnogi cydweithrediad ymysg awdurdodau comisiynau, cynllunwyr a sefydliadau eraill. Bydd cydweithredu yn hyrwyddo polisïau cyson gan ddarparu gwasanaethau addysg, atal ac ymyrryd integredig i bobl ifanc. Dylid nodi'r canlynol:

- Mae'r maes hwn yn arbennig o addas ar gyfer cynllunio ar y cyd. Byrddau iechyd lleol, adrannau gwasanaethau cymdeithasol, adrannau addysg, adrannau tai, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, gwasanaethau prawf a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yw'r cynllunwyr allweddol. Mae gan ddarparwyr o'r sector gwirfoddol hefyd ran i'w chwarae a gallant gyfrannu adnoddau i drefniadau cyfuno cyllid.
- Bydd unrhyw gynllun addysgu ac atal, o reidrwydd, yn golygu bod angen cynghreiriau cynllunio a darparwr gwasanaethau effeithiol sy'n cynnwys iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg, y gwasanaethau ieuenctid, y gwasanaethau hamdden, adrannau tai, y gwasanaeth carchardai, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Timau Troseddau Ieuenctid a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol.

## 12.6 Effeithiolrwydd drwy gontractau neu gytundebau lefel gwasanaeth

Dylai asiantaethau cynllunio gytuno ar gontractau neu gytundebau lefel gwasanaeth effeithiol â'r sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau. Dylai'r rhain gynnwys manylion am y prosesau monitro a rheoli perfformiad. Golyga hyn:

- Y dylai contractau neu gytundebau lefel gwasanaeth â darparwyr anstatudol fod yn seiliedig ar fframwaith cadarn sy'n cynyddu cyfraniad y darparwyr hyn i'r eithaf (hynny yw, dylent fod yn gytundebau mwy hirdymor, sy'n cynnwys gweithdrefnau rheoli perfformiad realistig wedi'u cyd-drafod);
- Pryd bynnag y bo modd, dylai contractau neu gytundebau lefel gwasanaeth fod yn seiliedig ar gyllid prif ffrwd;
- Dylai contractau gynnwys manylion am anghenion gwasanaeth uniongyrchol unigolion yn ogystal ag anghenion hyfforddi staff, cynghori ac ymgynghoriaeth ac ymchwil;
- Dylai cynllunwyr gydweithio ar lunio contractau ar gyfer gwasanaethau arbenigol Haenau 2 a 3;
- O fewn cyd-destun llinell sylfaen isel y gwasanaethau ymroddedig yn Haenau 3 a 4, mae'n bwysig fod cynllunwyr yn sefydlu contractau/cytundebau lefel gwasanaeth sy'n cydnabod swyddogaethau gwasanaethau nad ydynt yn ymroddedig i gwrdd ag anghenion pobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau yn benodol, ond y gellid eu defnyddio'n briodol ar gyfer hyn. Rhyngddynt dylent ddyfeisio a chynnig system effeithiol o reoli ansawdd sy'n gallu cynnal gwasanaethau cost-uchel, defnydd-isel, hynod arbenigol;
- Dylai cytundebau ddilyn strwythur bwriadol sy'n datgan darpar swyddogaethau'r darparwr a'r comisiynydd gan gynnig eglurder ynghylch mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau a gytunwyd rhyngddynt.

## 12.7 Addasrwydd y sefydliad/hunanasesiad cynllunydd

Rhaid i'r awdurdodau cynllunio fod â'r cynhwysedd sefydliadol priodol er mwyn datblygu dull effeithiol o gynllunio'r gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl ifanc sy'n camddefnyddio sylweddau. I'r perwyl hwn, efallai y bydd o gymorth i gynllunwyr gynnal hunan-asesiad ar sail y cwestiynau canlynol.

- Pwy yn yr awdurdod/sefydliad sydd â gwybodaeth am y maes hwn?
- A yw'r sefydliad yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau fel y'u nodir yn y fframwaith?
- Pa mor fawr yw'r rhaniad sefydliadol rhwng gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n ysmygu tybaco, yn defnyddio neu'n camddefnyddio alcohol ac yn defnyddio neu'n camddefnyddio cyffuriau?
- Pa mor uchel eu safle yw'r bobl sydd â chyfrifoldebau cynllunio gwasanaeth yn y maes hwn a pha berchenogaeth sydd gan yr awdurdodau o bobl ifanc mewn angen?
- A yw'r awdurdod yn dangos neu'n ymateb i arweinyddiaeth wrth fynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc sy'n defnyddio neu'n camddefnyddio sylweddau?

- A yw unrhyw rai o'r gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n defnyddio neu'n camddefnyddio sylweddau ar goll yn strwythur sefydliadol darparwyr cyfredol?
- A yw'r asiantaeth yn glir ynghylch a yw'n cynllunio gwasanaethau addysg a hybu iechyd, gwasanaethau atal a/neu wasanaethau asesu ac ymyriad arbenigol?
- A all yr asiantaeth nodi'r adnoddau y mae'n eu buddsoddi, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mewn gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n defnyddio neu'n camddefnyddio sylweddau?

## 12.8 Rheoli perfformiad

Mae cynllunio yn golygu rheoli perfformiad yn ogystal â phenderfynu pa wasanaethau sydd i'w darparu, a phwy sy'n gwneud hynny.

Mae'r swyddogaeth amlycaf yn y maes hwn yn ymwneud â'r mesurau y bydd cynllunwyr yn eu dilyn i nodi a yw perfformiad ac ansawdd asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau yn ddigonol ai peidio.

Mae'n bwysig pwysleisio, fodd bynnag, fod ansawdd perfformiad asiantaethau darparu yn berthnasol i'w cynhwysedd, galluoedd ac ansawdd eu hunain, ond bod ansawdd perfformiad y cynllunwyr hefyd yn effeithio'n fawr arno. Dengys profiad fod cwmpas, ansawdd a swm y gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yn gysylltiedig â natur y gwasanaethau a gynlluniwyd a'r adnoddau y mae cynllunwyr wedi eu rhoi i'r darparwyr.

Gellir cysylltu rheoli perfformiad, felly, nid yn unig â gweithgareddau darparwyr gwasanaethau, ond hefyd ag egwyddorion cynllunio da, sy'n cael eu crynhoi yn yr adran hon.

## 12.9 Cylch gwella gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc sy'n defnyddio neu'n camddefnyddio sylweddau

Cynllunwyr sy'n bennaf gyfrifol am y prif ddatblygiadau a newidiadau y mae'r fframwaith hwn yn galw amdanynt. Mae Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn rhannu aelodaeth gyffredin a dylent gydweithio i sicrhau bod eu cynlluniau cynllunio unigol a chyfunol yn gyrru'r datblygiadau gwasanaeth angenrheidiol yn eu blaenau yn y pedair haen gwasanaeth ar draws amrywiaeth eang o weithgareddau (hy mewn lleoliadau addysg, gwaith ieuenctid, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau iechyd a chyflogaeth). Dylai hyn arwain at werthfawrogi llwyddiannau cyflwyno gwasanaethau yng Nghymru, yn ogystal â'r bylchau. O gymryd yr wybodaeth hon ar y cyd â'r fframwaith hwn, dylai beri i gynllunwyr nodi cylchoedd neu gynlluniau gwella blynyddol ar gyfer gwasanaethau i bobl ifanc sy'n defnyddio neu'n camddefnyddio sylweddau, neu sydd mewn perygl o wneud hynny.

## 12.10 Safonau a phennu safonau

Efallai y bydd cynllunwyr yn awyddus i sgwrsio â'u darparwyr gyda golwg ar archwilio a ddylid creu rhwydwaith i sefydlu safonau datblygu ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i bobl ifanc sy'n adlewyrchu'r polisi yng Nghymru ac egwyddorion arferion da. Mae'n debyg y bydd gwybodaeth sy'n deillio o wasanaeth o'r fath o gymorth wrth sicrhau bod datblygu ansawdd y gwasanaethau yn digwydd gam wrth gam. Mae'r gwerthoedd, yr egwyddorion, y nodau a'r amcanion a ddarperir yn y fframwaith hwn hefyd yn darparu llinell sylfaen ar gyfer datblygu safonau lleol y gall cynllunwyr ddisgwyl i wasanaethau eu datblygu.

Mae un gwasanaeth o'r fath eisoes ar gael: Quality in Alcohol and Drugs Services (QUADS). Mae 'Organizational Standards for Alcohol and Drug Treatment Services'[2] yn ddogfen ddefnyddiol.

[2] Drugscope, 1999.